# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 533 · **Gorffennaf 2022** · 50c




## GŴYL GWENLLIAN

Trowch i dudalen 3







**Yn y rhifyn hwn:**


- Cynlluniau newydd i'r Hen Bost **t4**
- Bws Gwennol y Dyffryn **t6**
- Cynllun 'Cloddio' **t17**

10

28

12

# Llais Ogwan

## Rhif 533
Gorffennaf 2022

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Dilwyn Pritchard**
(Ffôn 01248 601880)
d.pritchard@btinternet.com

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Carwyn Meredydd**.

Y golygydd ym mis **Medi** fydd
**Rhys Llwyd**,
Tonteg, 13 Talycae, Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE.
01248 601606 rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Awst** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 15 Medi**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Gorffennaf**

| | |
|---|---|
| **£30.00** | (123) Dilys Jones, Pencilan, Bethesda. |
| **£20.00** | (81) Gwenno Jones, Y Wern, Gerlan. |
| **£10.00** | (38) Beryl Wynne Edwards, Talgarnedd, Bethesda. |
| **£5.00** | (96) Gwynfryn Davies, Caernarfon. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com 01248 600184

**Rhoddion i'r Llais**

| | |
|---|---|
| **£75.00** | Er cof am Betty Morris, 41 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (Bryn Awel, Sling, gynt) a fu farw ar y 9fed o Ebrill 2022. |
| **£1.50** | Cyfaill, Rhes Elfed, Bethesda. |
| **£50.00** | Mrs. Val Amos, Glanogwen, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf atoch gyda gair o ddiolch i Bartneriaeth Ogwen a'r Dyffryn Gwyrdd am gymwynas yn ystod mis Mai.

Fel rhan o'r gwasanaeth trafnidiaeth cefais gludiant i Ysbyty Winsford yn Lloegr ar gyfer apwyntiad ffysio niwrolegol. Rydwyf wedi bod yn mynd i apwyntiadau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ond roeddwn angen mynd dros y ffin ar gyfer triniaeth arbenigol. Rydwyf yn dreifio'n lleol ond ni fuaswn wedi medru gyrru cyn belled ar gyfer y driniaeth.

Roedd yn brofiad cael mynd yn y car trydan, 'roedd yn dawel braf ac fe ddaru Dewi wefru'r car tra roeddwn i yn yr ysbyty!

Mae gennyf apwyntiadau eraill ar y gweill a dwi'n teimlo'n braf fod cymorth ar gael i fynd i apwyntiadau yn y dyfodol. Mi faswn i'n annog unrhyw un sy'n byw yn y Dyffryn ac angen cludiant i apwyntiadau neu ddigwyddiadau cymdeithasol i gysylltu gyda'r Dyffryn Gwyrdd yn y swyddfa (Yr hen Fferyllfa) ar y Stryd Fawr neu ar 07561648824.

Yn gywir,
Mr Alan Hughes, Glan Ogwen



Annwyl Ddarllenwyr,
Y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio trefn Categoreiddio (pedwar lliw) i ddynodi faint o gymorth sydd ei angen ar bob ysgol. Ond yn anffodus, y mae rhieni wedi bod yn defnyddio'r lliwiau (Gwyrdd, Melyn, Oren, Coch) fel arwydd o ysgolion da a gwael, ac yn symud eu plant o'u cynefin i ysgol arall.

Rwan, y mae'r llywodraeth wedi penderfynu dileu'r categoreiddio, ond teimlaf dylem nodi yn Llais Ogwan bod pob ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol uwchradd hon (Ysgol Dyffryn Ogwen) wedi cael y lliw gorau (gwyrdd) yn y categoreiddio diwethaf h.y dylai rhieni feddwl ddwywaith cyn symud eu plant o'u cyfeillion.

Yn gywir,
ARSYLWR

O.N.
Y mae symud plant i ysgol arall yn golygu teithiau mewn car, sydd yn erbyn polisïau gwyrdd.

# Penwythnos Gwenllian










Cynhaliwyd llu o weithgareddau amrywiol yn Nyffryn Ogwen o 10 hyd 12 Mehefin fel rhan o ddathliadau Gŵyl Gwenllian.

Agorwyd y gweithgareddau gyda darlith gywrain ar y nos Wener gan y Prifardd Ieuan Wyn a roddodd hanes y dywysoges Gwenllïan i ni. Roedd yn noson ddiddorol iawn, a hynny er bod yr hanes yn un drist ofnadwy o gipio'r dywysoges, merch Llywelyn ap Gruffydd o'i chynefin yng Ngarth Celyn, Abergwyngregyn i fyw fel lleian yn Sempringham yn Lloegr.

Trist meddwl nad oedd hi'n gallu dweud ei henw, siarad Cymraeg ac nad oedd hi chwaith yn gwybod dim am fawredd ei chyndeidiau. Wrth siarad efo rhai o'r hanner cant a fynychodd y ddarlith, roedd pobl o'r farn nad oedd y system addysg yn rhoi llawer o hanes Cymru i ni, ac eraill wedi synnu gan hanes erchyll y dywysoges.

Yna, roedd taith cerdded Carnedd Gwenllïan ar ddydd Sadwrn. Taith o 8 milltir a arweiniwyd gan Stephen Jones o'r cwmni chwaraeon awyr agored lleol, Anelu. Cafwyd taith ardderchog, wrth i bawb gael amser i weld y golygfeydd a dysgu am enwau mannau penodol.

Ar fore Sul roedd taith fwy hamddenol ar hyd Lôn Las Ogwen. Unwaith eto, arweiniwyd gan Stephen, gyda 15 o bobl o bob oed yn mwynhau'r daith y daith. Mwynhaodd pawb cerdded i allu eu hunain, heb fynd yn rhy gyflym! Fe stopion ni hanner ffordd am frêc - mwynhaodd y plant chware yn y parc. Roedd y sgwrs yn llifo a phawb yn mwynhau cwmni ei gilydd. Fe heliodd y plant ffyn i gofio Gwenllïan, i addurno yn y gweithdy celf a gynhaliwyd yn y clwb rygbi ar ddiwedd y daith.

Wedi cyrraedd Dol Ddafydd, ymunodd plant nad oedd ar y daith yn y gweithdy celf, gyda rhyw 20 i gyd yn mwynhau'r sesiwn a gynhaliwyd ar y gwair ger y clwb. Roedd Elen Williams wedi trefnu offer crefft fel gallai pawb gael hwyl ar yr addurno. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr a'r rhieni yn teimlo ei fod yn gyfle arbennig i'r plant bod yn greadigol a hynny o fudd i'w lles.

O siarad gyda mynychwyr y penwythnos, roeddent yn teimlo ei fod yn bwysig cael gŵyl i gofio Gwenllïan ac i gofio fod gan yr ardal yma ran allweddol yn hanes y dywysoges. Mae stori Gwenllian yn rhan o hanes Cymru ac mae cofio ein hanes mor bwysig, mae'n rhan o'n hunaniaeth ni. Y gobaith fydd cynnal penwythnos arall yn 2023 i gofio Gwenllïan.

Cafodd yr ŵyl ei chynnal gan Bartneriaeth Ogwen, gyda chefnogaeth ariannol gan Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a grant Celf Gymunedol Gwynedd. Diolch i bawb a helpodd i drefnu'r gweithgareddau.

**gan Lowri Larsen a fu'n rhan o drefnu'r penwythnos**







# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Gwneud y mwyaf o wisgoedd ysgol

Gyda blwyddyn ysgol arall ar ben, a gwyliau haf hir o flaen disgyblion y Dyffryn, mae criw o wirfoddolwyr wedi dod ynghyd i geisio casglu ac ail-ddefnyddio hen wisgoedd ysgol.

Daeth y syniad gan Paula Owen: "O'n i 'di gweld banciau gwisgoedd ysgol mewn cymunedau eraill ac wedi meddwl y bydda rywbeth tebyg yn fuddiol yma yn Nyffryn Ogwen. Mae pawb yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw, ac mae gwisgoedd newydd yn gallu bod yn gostus, felly o'n i'n meddwl y bydd unrhyw beth allwn ni wneud i wneud pethe'n haws i deuluoedd yn beth da."

Yn wahanol i fanciau gwisgoedd ysgol eraill, bydd y gwisgoedd sydd yn cael eu casglu yn cael eu cynnig ar fenthyciad hir dymor drwy'r prosiect 'Petha' sy'n  cael ei arwain gan Bartneriaeth Ogwen ac yn ceisio sefydlu Llyfrgell Pethau yn y Dyffryn.

Eglurodd Catrin Wager, Cydlynydd Petha: "Nod Petha ydy cadw 'pethau' allan o'r ffrwd wastraff, a'u rhannu fel ased cymunedol, i bawb eu benthyg. Pan welais syniad Paula, roedd i weld yn gyfle da i gydweithio.

"Y syniad ydy y byddwn yn gallu casglu gwisgoedd mewn cyflwr da, eu golchi, didoli, a'u pecynnu, wedyn fe all pobl eu benthyg am y flwyddyn ysgol am bris fforddiadwy. Ar ddiwedd y flwyddyn, os di'r dillad dal yn addas i'w gwisgo, gellir dod a nhw nol, a'u golchi a phasio ymlaen i rywun arall."

I Kelly Thomas, ysgogiad amgylcheddol ddenodd hi i'r prosiect. Dywedodd: "Mae dillad yn rhywbeth sydd hefo ardrawiad amgylcheddol aruthrol! Drwy basio dillad sydd mewn cyflwr da o un aelwyd i'r llall, gallwn atal yr angen i brynu dillad newydd, arbed arian, a helpu'r amgylchedd!"




**Robyn Meredydd a Catrin Wager gyda rhai o'r gwisgoedd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cefnogi'r prosiect drwy ddarparu biniau fydd yn cael eu defnyddio i gasglu'r dillad.

Dywedodd Robyn Meredydd: "Roedd ysgolion fy mhlant i'n barod iawn i fod yn rhan o'r prosiect, ac mae'n grêt gallu cydweithio a nhw. Yn ystod wythnos olaf y tymor roeddem yn casglu o ysgolion Abercaseg, Rhiwlas, Bodfeurig, Dyffryn Ogwen, Llanllechid, Penybryn a Tregarth, ac mi fydd biniau wedi eu lleoli yn swyddfa Dyffryn Gwyrdd a chyntedd y llyfrgell dros yr haf.

"Ond be da ni wir angen rŵan ydy gwirfoddolwyr sy'n fodlon helpu hefo'r golchi a phecynnu."

Cysylltwch â catrin@ogwen.org neu cadwch lygad allan ar ffrydiau cymdeithasol @pethagwynedd os da chi awydd cymryd rhan neu ddysgu mwy!

# Cynlluniau newydd i'r Hen Bost

Yn dilyn gwaith caled i sicrhau grantiau sylweddol, mae Partneriaeth Ogwen wedi prynu hen adeilad y Spar ar Stryd Fawr Bethesda i'w ddatblygu fel canolfan grefftau, bwyty a chanolfan dreftadaeth newydd i Ddyffryn Ogwen. Yr Hen Bost fydd enw'r ganolfan newydd a diolch i'r Prifardd Ieuan Wyn am ei gymorth wrth ddewis enw newydd teilwng i'r safle.

Mae'r cyllidwyr yn cynnwys Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Gyngor Gwynedd a Chronfa Cymunedol Eryri a hefyd buddsoddiad gan Bartneriaeth Ogwen ei hun.

Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi llwyddo gyda chais i Gronfa Cymunedau Mentrus Llywodraeth y DU i ariannu'r costau pensaernïol a chomisiynwyd Penseiri PEGWA i baratoi dyluniadau ar gyfer datblygu'r eiddo. Mae'r prif bensaer, Elinor Gray Williams yn arbenigo ar bensaernïaeth gadwriaethol a chynaliadwy a bwriedir datblygu'r safle i safonau carbon niwtral a chreu adeilad sy'n adlewyrchu ein treftadaeth chwarelyddol.



**Mae Dafydd Roberts, Mair Owen, Einir Williams a Meleri Davies ymhlith aelodau'r Grŵp Llywio**

Meleri Davies, Prif Swyddog y Bartneriaeth sy'n arwain y gwaith, gyda Grŵp Llywio sy'n cynnwys y Cynghorydd Rheinallt Puw, Dyfrig Jones, Einir Williams, Mair Pierce a Dafydd Roberts hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol. Y camau nesaf fydd trefnu diwrnod agored ar y safle i bobl gael gweld y dyluniadau arfaethedig.

"Mae hwn yn gyfle gwych i Fethesda a diolch i'r holl gyllidwyr sydd wedi cefnogi'r prosiect. Bydd hwn yn adnodd pwysig i'n cymuned ni a dwi'n hynod gyffrous am ei ddatblygiad yng nghalon y pentref," meddai'r Cynghorydd Rheinallt Puw, sy'n un o Gyfarwyddwyr y Bartneriaeth.

Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gynnwys y cynlluniau hyn o fewn cais grant 'Llewyrch y Llechi' i gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth San Steffan. Mae'n gais sylweddol i ddatblygu'r Hen Bost a gwella insiwleiddiad sain Neuadd Ogwen, gwella'r cysylltiad rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn a gwneud gwelliannau eraill i'r Stryd Fawr.

Y bwriad ydi datblygu'r adeilad fel unedau annibynnol ar gyfer crefftwyr lleol ac hefyd i rai o brosiectau'r Bartneriaeth. Bydd gwasanaeth llogi beiciau trydan tîm Dyffryn Gwyrdd yn yr adeilad a byddant yn llogi unedau eraill i fusnesau lleol sydd eisiau gweithdai/siopau bychan. Bwriad y pensaer yw gadael golau i lifo trwy'r prif adeilad fel bod teimlad marchnad dan do i'r bensaernïaeth a golau naturiol yn llifo trwy'r adeilad. Ym mlaen yr adeilad, bydd bwyty newydd yn cael ei ddatblygu.

Rhwng Caffi Seren a'r adeilad presennol, bwriedir adeiladu estyniad fydd yn gartref i Ganolfan Treftadaeth newydd i'r dyffryn. Bydd fflat hunangynhaliol yn parhau ar y llawr uchaf.

Yn seiliedig ar ddyluniadau cychwynnol, bydd y Bartneriaeth yn gwneud galwad agored i roi cyfle i artistiaid a chrefftwyr ac arlwywyr i ddatgan diddordeb mewn cael gofod yn yr adeilad. Bydd ceisiadau grant refeniw yn cael eu cyflwyno hefyd er mwyn cyflogi staff i weithio efo'r gymuned i ddatblygu cynnwys ar gyfer y Ganolfan Dreftadaeth newydd.

Mae llawer o waith caled i wireddu'r prosiect, ond bydd tîm y Bartneriaeth yn gweithio'n galed i'w ddatblygu.

"Dwi'n falch fod Partneriaeth Ogwen wedi gallu adennill adeilad segur y Spar gan sicrhau perchnogaeth gymunedol ohono," meddai Meleri Davies, Prif Swyddog y Bartneriaeth.

"Rydym yn edrych ymlaen at yr her o ddatblygu adeilad trawiadol fydd yn gaffaeliad i'r ardal ac yn gartref teilwng i gofnodi treftadaeth leol."

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Cae Rhosydd**
Y dyddiad disgwyliedig i orffen y datblygiad tai yng Nghae Rhosydd yw Gorffennaf 2023, os na fydd anawsterau annisgwyl.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchwn Dafydd Meurig, Pentref Llanllechid ar gael ei ddewis i arwain cabinet Cyngor Gwynedd ar yr amgylchedd. Hefyd, llongyfarchwn Godfrey Northam, Llwyn Bedw am gael tystysgrif gan Mantell Gwynedd mewn seremoni yng Nghaernarfon i ddiolch iddo am 26 mlynedd o wasanaeth gwirfoddol i Gyngor ar Bopeth Gwynedd.

**Cae chwarae**
Disgwyliwn y bydd slab concrit newydd o dan un fainc yng Nghae Chwarae Talysarn, Rachub i atal trafferth efo mwd, wedi i'r cynghorydd cymunedol Godfrey Northam ymateb i gais trwy gysylltu â Chyngor Gwynedd a'r cynghorydd sirol Paul Rowlinson.



## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar y 9fed o Fehefin yng Nghanolfan Cefnfaes.

Ymunodd Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri, ac Abbie Edwards o Bartneriaeth Tirwedd Y Carneddau â'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar nifer o brosiectau sydd ar y gweill a chlywsom nifer o syniadau ffafriol. Nod y cyfarfod hwn oedd codi pwysigrwydd o gydweithio a chyfathrebu'r ddau sefydliad gyda'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

Adroddwyd fod y gwaith i adnewyddu Sêt Llanllechid wedi ei gwblhau. Mae'r sêt nawr yn barod i gynnal y sêl ym mis Gorffennaf (dyddiad i'w gadarnhau).

**Dymuniadau**
Dymunwn yn dda i Betty Percival Jones, Ffordd Tanybwlch, sydd wedi ymgartrefu ym Mhlas Ogwen, Bethesda.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Ken Willams (Ken 19) a fu'n byw ym Maes Bleddyn ac yna Stryd Goronwy, cyn iddo farw yn ddiweddar.

**Carmel, Llanllechid**
Ar fore Sul y 19 o fis Mehefin, mi gawsom ni wasanaeth bywiog a hwyliog yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc. Thema'r gwasanaeth oedd "Iesu'r Bugail Da" ac mi fu merched y Clwb Gwau yn brysur iawn yn gwau teganau lliwgar o ddefaid ac ŵyn bach i'w harddangos o gwmpas y capel. Roedd rhai o ferched y Clwb Gwau yn ogystal â rhai o ffyddloniaid Carmel yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hefyd.
Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth a diolch hefyd i bawb a oedd wedi dod i gefnogi'r plant a'r ieuenctid. Diolch yn arbennig i Llinos Roberts am ddod yr holl ffordd o Drefor i gefnogi'r gwasanaeth. Mae hi wedi bod yn ymweld â ni sawl tro erbyn hyn yn rhinwedd ei swydd weinyddol gyda Chymorth Cristnogol. Mi gawsom ni i gyd fendith wrth gydaddoli fel hyn. Rhoddwyd y casgliad y tro yma tuag at waith ysgol Sul Carmel.

# Mae Rali Ffermwyr Ifanc Eryri yn ôl!

Mi fuodd aelodau o glybiau ar draws y sir yn cyfarfod yn fferm Gwythrian, Aberdaron i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn ddiweddar.

Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl gyda nifer o aelodau'r clwb yn cystadlu mewn bob math o gystadlaethau gan gynnwys tynnu rhaff, coginio, gwaith llaw a mwy.

Dyma ganlyniadau y cafodd aelodau o'n clwb ni wrth gystadlu ar y diwrnod:

1af i Becca Jackson am drin gwlân ac ail am gneifio gyda gwella,

2il i Eilir Davies yn y cneifio, 3ydd i Gwenno Roberts a Betsan Griffiths yn coginio,

3ydd i Cian Rhys yn Creu Penwast allan o gortyn bêls a 4ydd am ganu yn unigol.

Yn yr wythnosau cyn y rali mi fuodd yr aelodau yn brysur yn creu er mwyn cystadlu yn yr adran gwaith cartref. Cafodd Mared Morris gyntaf yn addurno cacen i blentyn 5 oed a trydydd am greu poster i'r rali, Iwan Harper yn ail gyda gwaith coed – creu iard fferm i blentyn, Eilir Davies yn drydydd gyda gwaith metel, Meleri Parry yn arlunio a Sallie Roberts yn drydydd yn yr adran tecstiliau.

Roedd yna gystadlaethau beirniadu hefyd a oedd yn cyfri' tuag at y rali, a daeth rhai o'r aelodau i'r brig yno hefyd. Rhoddwyd cyntaf i Iwan Harper yn beirniadu ceffylau adran Ac o dan 28 a trydydd i Betsan Griffiths o dan 18, gyda Sallie Roberts yn drydydd yn beirniadu gwartheg Hereford dan 28 oed.

Ar ôl misoedd prysur o baratoi a chystadlu at y rali roedd hi yn ddiwrnod llwyddiannus a phawb wedi mwynhau, braf hefyd oedd gorffen y diwrnod yn gwrando ar Bwncath yn ystod y ddawns nos.

Diolch i'r holl swyddogion am eu gwaith caled dros y flwyddyn a hefyd i'r holl aelodau am flwyddyn llawn hwyl.

**Clwb Ffermwyr Ieuanc Dyffryn Ogwen**



**Gwisgo aelod o'r clwb fel eitem amaethyddol**



**Meleri yn barod ar gyfer gosod blodau**



**Tîm tynnu rhaff iau**

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Cinio Cymunedol**

Cynhaliwyd y cinio blynyddol ar gyfer trigolion ardal Pentir yn ddiweddar. Cafwyd tywydd perffaith ar gyfer cinio yn yr awyr agored. Daeth nifer dda ynghyd gyda'r cwrs cyntaf yn cychwyn am 1yp. Mae'n amlwg bod pawb wedi mwynhau oherwydd ni ddaethpwyd a'r achlysur i ben hyd 9yh. Diolch i bawb fu'n gosod y byrddau a chadeiriau ynghyd â'r rhai oedd wedi paratoi'r danteithion.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Sul, Llun a Mawrth – wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 – 23.00
Sadwrn 15.30 – 23.00
01248 602537

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

**EGLWYS SANT CEDOL, PENTIR**

**Llawdriniaeth**

Yn ystod y mis diwethaf derbyniodd Gwyn, Fron Olau, Llanddeiniolen a Mair, Hafod Lon, Rhiwlas lawdriniaethau cataract. Gobeithio fod eich golwg wedi gwella.

**Gwellhad**

Estynnwn ein cyfarchion at Gaynor, Glyn Cottage, Nant y Garth sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gan ddymuno gwellhad buan i chi.

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar Parchedig Martyn Lewis yn eu profedigaeth, yn enwedig at ei wyres Scarlet a fynychodd yr Eglwys ar lawer achlysur gyda Martyn tra oedd yn weinidog lleyg ym Mro Ogwen.

Yr un yw ein neges at deulu'r ddiweddar John Caradog Rees, Lodge, Pentir, a oedd yn aelod ffyddlon o'r eglwys dros y blynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei blant Philippa, Kate a Daniel ynghyd â'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

**Te Bach**

Prynhawn Mercher, 1 Mehefin cynhaliwyd ein Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd gwobr gyntaf y raffl gan Eirwen, sef planhigyn a'r ail wobr yn mynd i Jimmy sef potel o Prosecco. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf y mis am 2 o'r gloch y prynhawn. Bydd y Te Bach nesaf ar y 3ydd o Awst ac mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am baned a theisen.

**Hamper Misol**

Rydym yn cynnal raffl 'Hamper Misol' ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd 'Hamper Misol Mai' oedd Dawn Williams, sef offer garddio. Roedd y wobr yn rhoddedig gan Eirwen. Nia roddodd yr ail wobr gyda photel gwin yn mynd i Gwyneth Hosker.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a theuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd i'r aelodau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Gwasanaethau**

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs yn dilyn.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parch. Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

# Bws Gwennol y Dyffryn

Ar ôl llwyddiant cais grant i'r Gronfa Ewropeaidd, mae'n bleser dweud fod bws gwennol trydan newydd Partneriaeth Ogwen bellach wedi cyrraedd y Dyffryn.

Bydd y bws naw-sedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y misoedd Ebrill i Hydref i gludo teithwyr o Fethesda i Lyn Ogwen ac yn ôl. Bydd y bws yn gwneud tair taith olynol bob dwy-awr. Mae'r grant hefyd wedi ariannu swyddi gyrwyr a braf nodi bod tri gyrrwr lleol wedi eu penodi sy'n dechrau fis yma.

Tu hwnt i'r cyfnodau uchod bydd y bws a'r gyrwyr ar gael i gefnogi grwpiau a mentrau cymunedol i gludo trigolion lleol i wahanol weithgareddau. Mae'r bws eisoes wedi cael



Bydd bws gwennol trydan yn dechrau gwasanaethu o 21 Gorffennaf

defnydd gan y gymuned yn cynnwys taith i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych a thaith drigolion hŷn i Fiwmares.

Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gyda'r clybiau chwaraeon, ysgolion lleol a mudiadau amgylcheddol megis Partneriaeth Cwm Idwal er mwyn rhoi cyfle i gludo gwirfoddolwyr i'r ardal mewn cerbyd ecogyfeillgar.

Bydd y bws gwennol yn dechrau'r gwasanaeth sefydlog o Fethesda i Lyn Ogwen o 21 Gorffennaf ymlaen, a bydd yr amserlen ar gael ar wefan Partneriaeth Ogwen. (Ni fydd y bws yn rhedeg ar Ddydd Mercher.)

Os hoffech fwy o wybodaeth am logi'r bws trydan at ddefnydd cymunedol, cysylltwch â **cludiant@ogwen.org** neu ffonio 01248 602131.

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Cydymdeimlo**

Ar y 1af o Fehefin bu farw Kenneth Willams (Ken 19) yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaelodd hir. Roedd Ken yn enedigol o Lanllechid, ond ar ôl cwblhau ei addysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen aeth fel prentis i gwmni A.E.I. yn Rugby. O'r fan honno, symudodd i sawl man arall cyn dychwelyd adre i weithio i gwmni BT nôl ym 1972 ac yno y bu hyd ei ymddeoliad.

Ei ddiddordebau penna oedd ffotograffiaeth a Rygbi Cymru. Bu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd yn chwilio am noddwyr i 'dim gora'r ardal' yn ei dyb ef, sef Bethesda.

Roedd yn lys-dad i Rachel a'i diweddar chwaer Sarah, yn frawd i Gwenda, Sheelagh, Adrian a'r ddiweddar Pat.

Yn fwy diweddar roedd yn bartner i Magi ond yn anffodus fe gollodd hi ar ôl salwch byr.

Mae diolch y teulu'n fawr i Rachel a'i gŵr Tony fu'n gefn a chefnogaeth arbennig i Ken.

Mae'n cydymdeimlad yn fawr â chi fel teulu.

**Dathlu pen-blwydd arbennig**

Penblwydd hapus arbennig iawn i Shirley Morris, Ciltrefnus a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 60. Gobeithio dy fod wedi cael amser da Shirley ac wedi cael dy sbwylio gan y teulu i gyd.

**Penblwydd priodas**

'Roedd Catrin a Dion Griffith-Jones, Hen Gapel, yn dathlu pen-blwydd priodas arbennig.....21 mlynedd. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau.

**Seren y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau mawr i Ithel Morris, Tan Garth sydd wedi derbyn gwobr arbennig Seren y Flwyddyn ar gwrs yng Ngholeg Menai, Llangefni. Mae Ithel yn gobeithio mynd i astudio Celf yng Ngholeg Menai, Bangor ym mis Medi - pob lwc iti Ithel.

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



Llongyfarchiadau i Buddug a Mark Humphreys ar eu priodas

**Priodas**

Mae llawer o ddathlu wedi bod yn Stryd y Ffynnon mis yma wrth i ddau gwpl briodi.

Llongyfarchiadau mawr i Buddug a Mark Humphreys a briododd yn Fferm Hafod, Llanrwst ar y 15fed o Fehefin. 'Roedd yr haul yn disgleirio ac 'roedd pawb wedi cael diwrnod arbennig. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi'ch dau. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich mis mêl ym Mecsico.

Ar yr 17eg o Fehefin, priododd Judith Kauffmann a David Waller, Stryd y Ffynnon hefyd ym Mhlas Brondanw, Llanfrothen. Gobeithio i chithau hefyd fwynhau eich diwrnod arbennig a dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i chi'ch dau.

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**





**Gwobr i Beca**

Llongyfarchiadau mawr i Rebecca Hardy-Griffith, Stryd Goronwy, Gerlan sydd wedi ennill Gwobr Goffa Eirian Llwyd Er Anrhydedd.

Roedd Eirian Llwyd wrth gwrs yn creu printiau nodedig iawn ac roedd yn sylfaenydd Y Lle Print Gwreiddiol. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Goffa yn ei henw rhai blynyddoedd yn ôl i gynnig gwobrau ariannol i artistiaid newydd a rhai sy'n dod i'r golwg sy'n gwneud printiau.

Eleni, penderfynodd Ymddiriedolaeth Eirian Llwyd i gynnig gwobr er anrhydedd gan na ddyfarnwyd unrhyw wobrau yn y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd Covid-19. Nodwyd fod nifer o geisiadau cryf wedi eu henwebu, ac mae'n amlwg fod gwaith prin Rebecca wedi plesio!

"Dwi'n hollol ddiolchgar i dderbyn y wobr anhygoel yma ar gyfer fy ngwaith argraffu ar sgrin, proses celf newydd wnes i ddechrau dros y cyfnod clo," meddai Rebecca.

"Mi fyddai yn defnyddio'r arian i dalu am sgrîns newydd, prynu inc a phapur gwell ac ymuno â chyrsiau printio."

Mae gwaith Rebecca wedi bod ar ddangos yng Nghanolfan Grefftau Rhuthun yn ddiweddar a'r wobr yn cael ei roi i artist print addawol. I weld y diweddaraf am waith Rebecca, dilynwch ei chyfrif Instagram ar @_rebeccafhardy

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

L. Sturrs a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Swyddi newydd**
Llongyfarchiadau i Siôn Kendrick, mab Bethan a Mark, 4 Lôn Ddŵr, sydd wedi cael ei benodi'n Arweinydd Dyniaethau a Phennaeth Hanes yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Bydd yn dechrau yno ym mis Medi.

Ar hyn o bryd, mae o'n athro Hanes yn Ysgol Eirias, Bae Colwyn, lle mae'n byw efo'i gymar, Natalie.

Un o blant Talybont ydi Siôn. Rydym yn falch iawn ohono, ac yn dymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau cynhesaf i Bethan, mam Siôn, sydd wedi derbyn swydd Pennaeth Gofal Iechyd Parhaol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yn y swydd, Bethan. Mae pawb yn falch o glywed y newyddion da.

**Milfeddyg newydd**
Llongyfarchiadau i un arall o ' blant y pentref', Dr. Rhiannon Llwyd BVSSc MRCVS, Tai Newyddion, ar raddio fel milfeddyg o Brifysgol Lerpwl. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd efo Milfeddygon Bodrwnsiwn.

**Priodas**
Anfonwn ddymuniadau gorau am iechyd da a hir oes i Jason ac Alice Hughes, 5 Cae Gwigin, ar achlysur eu priodas ar lan Llyn Gwynant ar y 12ed o'r mis diwethaf. Roedd y tywydd yn braf, a theulu a ffrindiau wrth eu bodd yn cael dathlu mewn lle mor fendigedig.


Jason ac Alice ar lan Llyn Gwynant

**Dymuniadau penblwydd**
Erbyn i Lais Ogwan ddod o'r wasg, bydd Judy Hughes, Tŷ Cerrig, wedi dathlu ei phen-blwydd yn drigain oed, gyda pharti yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Llongyfarchiadau, Judy, a chofion annwyl oddi wrth dy deulu a ffrindiau i gyd yn y pentref. Rydw i'n siŵr iti fwynhau pob munud o'th ddiwrnod arbennig.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
17 Gorffennaf: Parchg. Geraint Roberts.
24 Gorffennaf: Y Gweinidog.
31 Gorffennaf: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.
Mis Awst – Dim Oedfaon
4 Medi: Oedfa i'w threfnu.
11 Medi: Y Gweinidog.
18 Medi: Parchg. Gwenda Richards.
Croeso cynnes i bawb.

*Ysbyty*
Bu Hughie Hughes, Lôn Ddŵr, yn derbyn triniaeth i'w lygad yn yr ysbyty ddiwedd Mehefin. Gobeithio fod y golwg yn well erbyn hyn.

*Te Mefus*
Cynhaliwyd ein Te Mefus cyntaf ers 3 mlynedd yn y festri ar 29 Mehefin. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Rita yn diolch**
Mae Rita Hughes (Anti Rita Post) yn dymuno diolch o galon am yr holl roddion, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniodd yn sgil ei llawdriniaeth. Yn ei geiriau ei hun , "Mae pawb wedi 'nifetha fi'n racs".

Wel, Rita bach, rwyt ti 'mond yn cael dy haeddiant, a chditha mor ffeind, a pharod dy gymwynas, wrthym i gyd. Mae'n dda gennym glywed bod y pen-glin yn dal i gryfhau, a'r boen yn dy goes yn dechrau cilio o'r diwedd.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i John Evans, 6 Cae Bach sydd hefyd wedi bod o dan lawdriniaeth yn ddiweddar. Brysia wella, John, iti gael mynd yn ôl i'r ardd. Mae'n wledd i'r llygad bob blwyddyn.

**Cydymdeimlad**
Ar ddechrau Mehefin, yn dawel yng Nghartref Nyrsio Brynsiencyn, bu farw John Richard Ishmael, 5 Bro Emrys. Estynnwn gydymdeimlad ddwysaf at ei briod, Beryl, a ofalodd mor dyner amdano am amser maith; at ei feibion, Steven a Michael; ei ferch, Diane, a'r teulu i gyd yn eu galar.

Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar y 15fed o Fehefin.

**Dymuniadau gorau**
Anfonwn ddymuniadau gorau at bawb yn y pentre sydd yn cwyno ar hyn o bryd. Gobeithio y cawn Haf braf. Mae'n gwneud lles inni i gyd fod allan yn yr awyr iach.

Rydym hefyd yn dymuno'n dda i bobl ifainc y pentref sy'n ffarwelio â'r ysgol ar ddiwedd y tymor hwn. Pob bendith arnynt i gyd at y dyfodol, ble bynnag y bônt.

## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo ag Adrian Williams, Moel Wnion, Y Bryn ar ei brofedigaeth o golli ei frawd Ken o Fethesda. Roedd wedi bod yn symol am gryn amser..

**Gwella**
Rydym ni gyd yn y pentref yn dymuno gwellhad buan i Mrs Liz Jones, Rhif 21. Cafodd lawdriniaeth go hegar yn Ysbyty Stoke yn ddiweddar.

**EGLWYS SANT TEGAI, LLANDYGAI**

**Gwyliau llawen**
Gyrrwn ddymuniadau gorau i ddarllenwyr y Llais; mwynhewch seibiant yr haf a'r wlad hyfryd o'n cwmpas. Cofiwn hefyd am blant a staff ein hysgol eglwys, Ysgol Llandygai a dymunwn iddynt wythnosau o hwyl a sbri ar ôl blwyddyn o waith caled o dan amodau anodd.

**Dymuniadau Gorau**
Cyfarchion arbennig i bawb sy'n wael neu yn yr ysbyty.

Mae sawl aelod o'r gynulleidfa eisoes wedi derbyn llawdriniaeth mewn ysbytai gwahanol, gan gynnwys Morwena Bean, Liz Jones ac Ann E. Williams ac mae Avril Williams yn disgwyl triniaeth ar ei llygaid. Dymunwn wellhad buan iddynt oll.

**Diolch**
Diolch eto i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor ffyddlon i Apêl Mis Rhodd St Tegai ym Mehefin.

Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd, LL57 3EF. (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd, LL57 4LD. (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd, LL57 4HU.

**Manylion Cyswllt**
Erys yr adeilad ar gau i'r cyhoedd.

Yn dilyn sefydliad y Parch Ddr Gareth Lloyd fel ein Harweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248 361521ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Manylion ei e-bost swyddogol i ddilyn.

# A fyddwn i yma o hyd?





Mae Caro a Cai yn aelodau o Gynulliad Cymunedol Hinsawdd Dyffryn Ogwen a ddaeth ynghyd yn ddiweddar yn Nol Ddafydd

A Dafydd Iwan a'i gan anfarwol yn uchel yn y siartiau dros Brydain fel yr ysgrifennaf y pwt yma, teg gofyn a fyddwn ni 'yma o hyd?' Nid yng nghyd-destun Cymru ond o fewn bodolaeth y fam ddaear.

Dwi yn wirioneddol gredu fod dyfodol y byd yn y fantol; yn grediniol fod cynhesu byd eang yn ffaith. Gallwch anghytuno, ond dyma fy marn. Pam mod i'n poeni am y 'winllan a roddwyd i'n gofal'?

Yn gyntaf ma gen i naw o wyrion a wyresau wedi eu gwasgaru dros Wynedd, Cilgwri (Wirral) ac Awstralia. Beth fydd eu dyfodol nhw a'r cenedlaethau sydd i ddod?

Yn ail, dwi yn ei theimlo yn fraint, drwy hap a damwain, fy mod wedi fy ngeni yn Gymro, yn byw yng Nghymru fach arbennig, ac felly yn teimlo dyletswydd i wneud be fedrai, yn yr ychydig amser sydd gen i ar ôl; i geisio gwneud gwahaniaeth i'w gwarchod rhag bygythiad mawr cynhesu byd eang.

Lle mae hyn yn mynd a fi yn yr ychydig eiriau yma? Cefais wahoddiad rhywsut i fod yn rhan o gnewyllyn o bobol o'r un anian â mi, fydd yn ymgynnull i drafod y dystiolaeth am y cynhesu byd eang yma a pha gamau allwn ni fel rhan o gymdeithas Dyffryn Ogwen eu cymryd i geisio gwneud rhywfaint o wahaniaeth.

Roedd y gwaith o gasglu trigolion Dyffryn Ogwen at ei gilydd ar gyfer y diben hwn wedi ei wneud gan gorff o'r enw GwyrddNi (chwarae da ar y gair gwyrdd!).

Mae'r mudiad wedi ei sefydlu gan chwech o fentrau cymunedol ledled Gwynedd (Partneriaeth Ogwen, Ynni Llŷn, Cyd Ynni, Cwmni Bro Ffestiniog, Yr Orsaf a DEG), ac wedi derbyn grant y Loteri Genedlaethol i drafod a gobeithio symud pethau ymlaen. Dwi yn dweud gobeithio – a ddoi nôl at hyn yn y man.

Daeth tua 50 o drigolion y Dyffryn i ddiwrnod o gyfarfod a thrafod y pwnc. Cyfarfod yn y clwb rygbi yn Nol Ddafydd wnaethom ni, a rhannu diwrnod gyda phobol o'r un anian. Cyfle i ddod i adnabod ein gilydd a dod i ganlyniad sut fyddem yn cyfathrebu a'n gilydd yn ystod y broses wnaethom ni, ynghyd â thrafod beth a obeithiwn wneud i adfer y sefyllfa argyfyngus yma.

Roedd trawsdoriad o bobol yno, nifer di -Gymraeg ond roedd iaith y nefoedd yn cael blaenoriaeth, gyda chyfieithydd i hwyluso pethau. Cawsom gyflwyniadau gan Yr Athro Gareth Wyn Jones a Phartneriaeth Ogwen hefyd, er mwyn dysgu mwy am y mater dan sylw ac am yr hyn sy'n digwydd yn lleol yn barod.

Cafodd pawb gyfle i ddweud eu dweud a datgan eu gobeithion ar sut i wneud hynny. Rydym am gael cyfarfod am gyfanswm o 4 diwrnod llawn dros y flwyddyn nesaf.

Y tro nesaf, bydd cyfarfod i grisialu beth benderfynwyd ar y diwrnod cyntaf a chael cynllun wedyn ar sut i weithredu.

Rŵan, rwyf wedi datgan yn flaenorol bod fy amser yn brin (bron a chyrraedd oed yr addewid!) felly, os byw ac iach, dwi am fynychu'r ail sesiwn. Os bydd camau pendant yn cael eu nodi a chynllun ymarferol yn cael ei gyflawni, gwych.

Os mai siop siarad fydd yr ail sesiwn, fydd hi ar ben ar fy ychydig gyfraniad i. Ond os dwi yn gweld bod siawns go dda o newid ychydig ar bethau, dyna beth fydd cam positif, yn fe fyddan yn parhau a'r cynulliad.

Cofier, yn ôl y ddihareb o China, mae taith o fil o filltiroedd yn cychwyn gyda'r cam cyntaf.

Yn ei gerdd "Gwinllan a roddwyd" mae Saunders Lewis yn sôn am "wele moch yn rhuthro drosti i'w maeddu". Oes raid i ni ddioddef hyn, ta fedrwn ni eu troi nhw allan cyn bydd hi rhy hwyr?

Mae gen i ddau gerbyd diesel. Ydi hyn yn iawn? Dwi di bod yn Awstralia, nifer o weithiau i weld y mab a'i deulu. A ddyliwn beidio mynd eto oherwydd bod hedfan mor bell yn weithred sydd yn llygru gymaint? Cwestiynau anodd i mi yn bersonol.

**Emyr Roberts**, Aelod o Gynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Ogwen

# Taith Dwy Delyn Deires a Ffidil i'r Alban yn 2022

Pam? Wel mae'r hanes yn ddifyr iawn, ac yn un sydd wedi ennyn ein diddordeb ers sawl blwyddyn bellach. Daethom ar ei draws wrth bori trwy gyfrol Robert Griffith, 'Llyfr Cerdd Dannau' (1913) sy'n adnodd cyfoethog o hanes y delyn a thelynorion yng Nghymru drwy'r canrifoedd.

Ar dudalen 177 ceir cofnod am Elen Cadwaladr, telynores o Blwy Llandegai yn Sir Gaernarfon, a'n hysbrydolodd ni'n dau i ymchwilio ymhellach i'w hanes.

Roedd Elen (neu Neli Dywyll) yn ferch i Hugh Cadwaladr, Braichtalog, Tregarth, ac yn delynores boblogaidd yn yr ardal mewn gŵyl mabsant a noson lawen, yn ogystal â'r eglwys. Roedd yn briod â Hugh Prichard o gyffiniau Caernarfon, oedd yn gantor ac o bosib yn ffidlwr. Priodwyd y ddau yn Eglwys Llandegai ym Mehefin 1787, ac aethant i fyw i Fraichtalog.

Gwyddom fod Hugh yn casglu a gwerthu cocos yn yr ardal cyn iddo ymuno â'r fyddin a hwylio i'r Aifft i ymladd yn erbyn Napoleon tua diwedd y 18fed / dechrau'r 19eg ganrif. Oherwydd anffawd daeth yn ei ôl yn ddall, ac felly, gan na allai gasglu cocos mwyach, bu'n gwerthu peli camffor yn lleol.

A beth, meddech chi, ydy'r cysylltiad rhwng peli camffor a dwy delyn deires yn teithio i'r Alban? Mae'r ateb yn hanes y teulu bach o Fraichtalog.

Oherwydd amgylchiadau a thlodi bu'n rhaid i Ellen a Hugh droi at glera gyda thelyn deires a ffidil gan deithio ledled y wlad i ddiddanu er mwyn cynnal y teulu. Erbyn diwedd 1815 roeddent wedi crwydro, efo pump o blant, cyn belled ag Iwerddon, a'u hunig fodd o deithio oedd trol fechan o wiail plethedig ag asyn yn ei thynnu. Wedi teithio o Ddulyn fyny i ogledd Iwerddon, am ryw reswm, bu iddynt groesi i ardal Galloway yn neheudir yr Alban yn Ebrill 1816 ar eu taith yn ôl i Gymru, a dyma ddechrau trywydd ein taith ninnau!

Roeddem wedi darllen yn Cerdd Dannau am y diwedd hynod drist a ddaeth i ran y teulu bach. Dyma fu'r sbardun i ni deithio'r holl ffordd i dalu ein teyrnged iddynt.

Ar nos Sadwrn yr ugeinfed o Ebrill, a hwythau ar eu ffordd adra i Gymru, roeddent wedi cyrraedd pentref bach o'r enw Twynholm lle y gobeithient dderbyn llety. Yn anffodus, doedd dim croeso iddynt yn unlle a bu'n rhaid chwilio am loches mewn pwll gro cyfagos. Wedi swper aethant i noswylio mewn congl gysgodol dan un o dorlannau'r pwll. Yn anffodus, rhyw dro yn ystod y nos disgynnodd talcen y pwll a'u claddu'n fyw. Fore trannoeth cafwyd hyd i'r asyn yn pori gerllaw, a phen y delyn deires yn ymddangos drwy'r gro oedd yr unig arwydd o'r digwyddiad trist iawn a ddaeth i ran y teulu. Yn ôl y sôn, pan gafwyd hyd iddynt roedd y lleiaf o'r plant a'i wyneb ar fron ei fam. Fe'u claddwyd ym mynwent yr eglwys leol mewn





Taith ddiweddar i Twynholm yn Yr Alban i dalu teyrnged i Elen Cadwaladr a'i theulu bach o Fraichtalog, Tregarth a fu farw mewn damwain erchyll yn 1816

# Profiadau Cynghorydd Sir Newydd

**Beca Roberts, sy'n rhannu ei phrofiadau ers cael ei hethol ym mis Mai...**

Rydw i wedi bod yn gynghorydd sir dros Dregarth a Mynydd Llandygai ers dau fis bellach! Dim ond cyfran fechan o'r pum mlynedd rydw i wedi ymrwymo iddynt, ond mae'n dal i deimlo fel bod oes wedi mynd heibio ers darganfod fy mod wedi ennill yr etholiad.

Diolch i bawb a ddaeth allan a phleidleisio – a gobeithio y byddaf yn ystod y pum mlynedd nesaf yn eu sicrhau bod eu pleidlais wedi'i bwrw'n ddoeth, ac efallai'n argyhoeddi rhai o'r etholwyr na phleidleisiodd i mi, mai yn anad dim arall, rydw i eisiau'r gorau i bawb sy'n byw yn yr ardal hon.

Felly beth mae cynghorydd sir newydd ei ethol yn ei wneud yn eu misoedd cyntaf?

A dweud y gwir, rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser yn deall sut mae Cyngor Gwynedd yn gweithio, yr adrannau amrywiol, pwy sy'n gweithio i ba un a phwy i gysylltu am beth - fel y gallwch ddychmygu mae hyn yn dipyn o her! Ond diolch i dîm gwych sy'n cefnogi'r Cynghorwyr Sir, rydym wedi bod i ddwsinau o gyfarfodydd cyflwyno ac mae gennym fynediad i bob math o ddogfennau a chanllawiau.



Y Cynghorydd Beca Roberts

Rwyf hefyd wedi bod mewn cysylltiad cyson gyda'r cyn-Gynghorydd Sir dros y ward, Dafydd Owen, ac yn sicrhau bod y pontio rhyngom yn mynd mor esmwyth â phosib. Mae siarad yn aml â Chynghorwyr Sir eraill, yn enwedig y garfan iau, sydd i gyd yn wynebu'r un heriau, hefyd yn amhrisiadwy i ehangu fy nealltwriaeth o'r rôl hon – mae'r gefnogaeth o fewn Plaid Cymru yn wych.

Fy hoff ran o'r misoedd diwethaf yw dod i adnabod yr etholwyr. Rwyf wedi bod yn helpu gyda materion yn amrywiol o ddeall y gwasanaeth bws newydd ym Mynydd Llandygai, i gefnogi achosion pobl ifanc sy'n chwilio am dai. Helpu pobl yw pam roeddwn i eisiau bod yn y rôl hon, ac rwy'n edrych ymlaen at wneud yn siŵr bod trigolion y ward yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi yn y dyfodol.

Os ydych yn byw yn Nhregarth a Mynydd Llandygai ac eisiau trafod unrhyw beth, cysylltwch â mi ar: **cynghorydd.becaroberts@gwynedd.llyw.cymru**

man a elwir hyd heddiw yn 'Stranger's Corner'.

Flynyddoedd yn ddiweddarach yn 1871 codwyd cofeb ddienw iddynt gan glerigwyr lleol, ac yna wedi treigl o ddeng mlynedd a thrigain, yn 1946, codwyd carreg arall ddienw gan Gymdeithas Galloway. Yn y cyfnod hwn bu Ernest Roberts (disgynnydd i deulu'r sipsiwn Cymreig) yn ymchwilio i hanes y teulu Prichard, a throsglwyddodd ffrwyth ei ymchwil i'r Gymdeithas yn yr Alban. O ganlyniad ychwanegwyd enw Hugh Prichard, ac ysgrifen Gymraeg ar gefn y garreg.

Ar yr ochr Saesneg mae cyfeiriad at Syr Walter Scott a ysgrifennodd y nofel 'Redgauntlet'. Hugh Prichard o Fraichtalog oedd symbyliad cymeriad 'Wandering Willie' sef y ffidlwr yn y nofel. Mae'n debyg fod y nofelydd yn gyfaill i ddyn o'r enw Joseph Train, hynafiaethydd lleol, a chyd-ddigwyddiad yw bod Train wedi cyfarfod â'r teulu Prichard y noson cyn y trychineb yn y pwll gro. Felly, tystiolaeth Train i Scott mewn gwirionedd greodd gymeriad 'Wandering Willie'.

Wrth feddwl am ddechrau trefnu ein taith, y cam cyntaf fu cysylltu â'r ficer yn yr eglwys yn Twynholm, a dyna sut y canfyddom, er mawr syndod fod yr hanes yn dal yn fyw yn y pentref, ac iddynt gynnal gwasanaeth coffa dau canmlwyddiant yn yr eglwys yn Ebrill 2016.



**Llun a beintiwyd gan Huw Roberts yn dilyn disgrifiad Joseph Train a welodd y teulu diwrnod cyn y trychineb**

**Twynholm, 18 Mai 2022**

Wel dyma ni wedi cyrraedd Twynholm o'r diwedd!

Bore 'ma aethom i chwilio am leoliad yr ysgol a'r eglwys ym mhentref Twynholm, Swydd Dumfries a Galloway. Pentref bach digon di-nod ar yr olwg gyntaf, ond un fyddai'n profi i fod yn hynod o groesawgar. Yna, o ddilyn yr hyn a wyddem am y lleoliad, canfyddom fan y trychineb, ac er nad oes unrhyw ôl o chwarel yno heddiw, profiad hynod drist oedd bod yn yr union fan.

Yn y prynhawn aethom tua'r ysgol, a da oedd canfod fod y plant eisoes yn gwybod yr hanes. Pleser pur fu rhoi perfformiad yno, dysgu cân Gymraeg iddynt a chyflwyno llun o'r teulu Prichard wedi ei baentio'n arbennig gen i (Huw). Bu hwn yn brynhawn i'w drysori.

Daeth saith o'r gloch, ac yn amser i ni droi am y cyngerdd yn yr eglwys, lle'r oedd cynulleidfa deilwng wedi ymgynnull. Wedi cyflwyniad byr gan hanesydd lleol, rhoesom ddatganiad ar ein teiresi a ffidil mewn awyrgylch gynnes braf, gan ddiweddu gyda pherfformiad o 'Pen y Daith' (Huw) a 'Telyn Twynholm' (Rhiain) – dwy alaw yr oeddem wedi eu cyfansoddi'n arbennig i'r amgylchiad. Cyn cychwyn ar ein taith o Gymru roeddem wedi recordio'r ddwy alaw, a phleser fu eu cyflwyno ar ffurf cd i'r ysgol, yr eglwys a Chymdeithas Galloway i gofio ein hymweliad.

Mae'n debyg mai'r rhan fwyaf teimladwy o'r diwrnod oedd pan, ar ôl ein cyngerdd yn yr eglwys, i ni ymgynnull tu allan wrth y beddi am wasanaeth byr, darllen emyn 'Canwn ar y daith' gan Nantlais, a chwarae 'Ar Hyd y Nos' – alaw fyddai wrth gwrs wedi bod yn wybyddus i'r teulu bach.

A dyna ddiwedd ar ddiwrnod fu'n brofiad bythgofiadwy i ni wrth gofio digwyddiad mor drist.

Fel y cofnodwyd ar y garreg...

"Mwyaf garw marw ymhell"

**Huw Roberts (Llangefni) a Rhiain Bebb (Machynlleth)**

## Gair neu ddau – John Pritchard

# FO A FI

Gyda syndod y sylwais na fu i mi flino darllenwyr *Llais Ogwan* â chyfeiriadau ato fo ers blwyddyn a mwy. Ar y cyn aelod seneddol Rory Stewart y mae'r bai fy mod yn gwneud hynny heddiw. Mae Mr Stewart yn credu mewn siarad plaen, yn arbennig wrth gyfeirio ato fo, Boris Johnson. Yn 2019, ar ddechrau'r ras yr oedd y ddau ohonyn nhw ynddi i olynu Theresa May yn Arweinydd y Blaid Geidwadol, dywedodd Mr Stewart na fyddai byth yn gwasanaethu llywodraeth a arweinid gan Mr Johnson. Wedi iddo fo ennill y ras, ymddiswyddodd Rory Stewart o Gabinet y Llywodraeth, a bu'n gyson ei feirniadaeth ohono ers hynny.

O'r holl bethau a ysgrifennwyd ac a ddywedwyd yn ddiweddar am Boris Johnson mae'n bosibl mai geiriau Rory Stewart yw'r mwyaf sobreiddiol a damniol. Meddai amdano ganol Mehefin: 'Un o'r bobl fwyaf dychrynllyd y medrwch ei ddychmygu - yn bersonol anonest ac yn gymeriad gwael ... Yn fy marn i, dylai pobl gadw mor bell â phosibl oddi wrth y dyn.' O bosibl nad yw'r cyfieithiad yn gwneud cyfiawnder â'r gwreiddiol: *'One of the most terrible human beings imaginable ... a shoddy character*'. Dyna beth ydi 'siarad plaen'! Mae ganddo fo ei feirniaid a ddywedodd bethau go fawr amdano dros y misoedd diwethaf, ond go brin fod neb wedi dweud pethau gwaeth. A'r hyn sy'n fy nychryn i ydi bod Mr Stewart yn amlwg wir yn credu hyn.

Dywedir rhywbeth tebyg ond gwaeth gan yr Apostol Paul yn un o lythyrau'r Testament Newydd. Nid am 'un o'r bobl fwyaf dychrynllyd' y sonia Paul ond am 'y blaenaf' neu'r gwaethaf o bechaduriaid (1 Timotheus 1:15). Rhannu'r Efengyl a wna wrth ddweud: 'A dyma air i'w gredu, sy'n teilyngu derbyniad llwyr: "Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid."' Gwefr i Paul ydi bod Iesu Grist yn achub *pechaduriaid*; gwefr fwy iddo ydi bod Crist yn achub *y gwaethaf* o bechaduriaid; ond y wefr fwyaf iddo ydi bod Crist yn achub *Paul ei hun* gan ei fod yn ei gyfrif ei hunan 'y blaenaf ohonynt'.

Mae ambell un yn ei gwneud yn rhwydd iawn i eraill weld eu beiau. Gwaetha'r modd o gofio pwysigrwydd ei swydd, fo, Boris Johnson ydi un o'r bobl hynny efo'i gelwyddau a'i ragrith a'i falchder a'i ddirmyg at foes ac egwyddor. Ond mae geiriau'r Apostol yn mynnu f'atgoffa mai 'fo a fi' yw hi wedi'r cyfan. Oherwydd yng ngoleuni Iesu Grist a'i fywyd glân a pherffaith, yn union fel Paul y gwelaf fi hefyd fy hun: 'y gwaethaf o bechaduriaid'. Fo a fi, mor debyg wedi'r cyfan. Ac ydw, fel Rory Stewart rydw innau wir yn credu hyn.

Ond diolch i Dduw, gallaf hefyd ddweud gyda Paul, 'Gorlifodd gras ein Harglwydd arnaf, ynghyd â'r ffydd a'r cariad sy'n eiddo i ni yng Nghrist Iesu' (1:14). Do, 'cefais drugaredd' (1:16); y trugaredd a ddaw â maddeuant a chymod a bywyd i bwy bynnag sy'n edifarhau ac yn credu yn Iesu'r Gwaredwr.

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts

**Croesawu Idwal yn ôl** Wrth agor ei sylwadau wedi ymarfer y côr nos Lun 20 o Fehefin dwedodd Wyn Roberts, y Cadeirydd, ei fod yn falch o groesawu Idwal Jones o'r Bas 1af yn ôl i'r côr ar ôl derbyn llawdriniaeth.  Mae Idwal yn aelod amlwg a ffyddlon ers blynyddoedd lawer. Roedd hefyd yn falch bod Michael Williams wedi dod yn ôl.

**Porthdinllaen** Mynegodd Wyn ei ddiolch i'r aelodau aeth i Borthdinllaen i gymryd rhan yn y rhaglen deledu, 'Take a hike'. Mae Porthdinllaen yn un o'r mannau harddaf a mwyaf eiconig yng Nghymru ac fe ddwedwyd bod tafarn Tŷ Coch yno ymhlith y deg bar traeth gorau yn y byd.

"Mae miloedd o ymwelwyr o bob rhan o'r byd yn tyrru yno bob haf," meddai Wyn, a "dwi'n bersonol wrth fy modd yn dod i lawr yma efo'r teulu am bicnic neu rywbeth mwy sylweddol yn y Tŷ Coch". Y disgwyl ydy y bydd y gyfres 'Take a Hike' yn cael ei darlledu ym mis Medi.



Yr aelodau o'r côr aeth i Borthdinllaen i gymryd rhan yn y rhaglen deledu 'Take a hike', y fersiwn Saesneg o'r rhaglen 'Am dro'

**Caernarfon** Ar nos Iau'r 23 Mehefin aeth y côr i brif adeilad Rheilffordd Eryri yng Nghaernarfon i ganu o flaen rhai o wyddonwyr a chynrychiolwyr niwclear amlycaf Ewrop a'r byd oedd yn cwrdd yno am ginio. Cafodd perfformiad y côr groeso cynnes gan y cynadleddwyr.

Meddai D. Jones Morris, un o wirfoddolwyr y rheilffordd, "Mae cael dod yn ôl yma i ganu o flaen pobl o bob rhan o'r byd yn bleser pur, a dwi'n gobeithio bod ein llafur yma wedi dwyn ffrwyth drwy arddangos peth o olygfeydd harddaf ein gwlad ar y daith trên gyffrous hon."

**Trefniadau Baton y Gymanwlad - Dydd Mercher, 29 Mehefin**
Parhau mae diwydrwydd y côr oherwydd cyn diwedd mis Mehefin aeth y côr i ganu yn seremoni trosglwyddo baton gemau'r Gymanwlad yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.

**Yn ôl yn Sant Ioan, Llandudno, Nos Iau, 30 Mehefin** Am y tro cyntaf ers i gyfnod y Cofid roi terfyn ar bob cyngerdd a chyfarfod torfol, cafodd y côr fynd yn ôl i ganu o flaen cynulleidfa lawn yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno. Mae St. Ioan wedi bod yn gyrchfan boblogaidd i sawl côr dros y blynyddoedd ac nid gormodiaith ydy dweud bod y croeso a gafodd Côr y Penrhyn yno yn wresog tu hwnt ac yn cael sawl encôr.

**CERDDI DATHLU AELODAETH 50 MLYNEDD**
Methwyd â chynnwys y cerddi a gyfansoddwyd i ddathlu 50 mlynedd o ganu gyda'r côr gan nifer o aelodau yn ein rhifyn diwethaf. Dyma nhw i chi gael eu gwerthfawrogi. Diolch i Alun Davies am yr arysgrifio.



**Aelodaeth Hanner Canrif**
Hanner canrif fu'n llifo – fel y gân,
Dyfal gamp perfformio;
Braint yr hirfaith gydweithio
A braint cynrychioli bro.

**Ieuan Wyn**



**Aelod 50 mlynedd**
Mor ddiddan yw cydganu – a mwynhau
Mynnu hwyl a dysgu
Â gwên daw rhain i ganu,
Yn ffyddlon, llon gyda'r lli.

**Dilwyn Owen**



**50 mlynedd o aelodaeth Côr y Penrhyn**
Er mwyn y gân fe roddaist,
Y cyfan a gefaist yn grwn,
Cerddi i'r bobl a genaist,
O'th ddoe hyd y dwthwn hwn.

Wrth ddathlu hanner cant o flynyddoedd,
Fel un o'r niferoedd a fu,
Yn sefyll yn enw Côr Penrhyn,
A'r iasau a roddwyd i lu,
Codwn floedd fydd yn esgyn i'r nenfwd
A chanwn dy glodydd yn llon,
Cyn dyblu'r hoff gytgan yn swynol
I aros am ganrif gron.

**Derfel Roberts**

**Nigel Owens yn difyrru - 17 Medi**
Braf cael cyhoeddi bod y galw am wasanaeth y côr yn prysur ddychwelyd wedi misoedd hesb y Cofid. Ym mis Medi byddwn yn croesawu'r dyfarnwr rygbi byd enwog, Nigel Owens, atom i Neuadd y Dref, Llanfairfechan. Mae pawb yn gwybod am ddawn siarad â hiwmor Nigel wedi ei weld ar y meysydd rygbi ond hefyd ar raglenni fel 'Jonathan' ar S4C.

Mae Haydn Davies, cyn-gadeirydd y côr yn adnabod Nigel yn dda, "I mi, mae Nigel Owens yn arwr a fo oedd prif ddyfarnwr y byd rygbi rhyngwladol. Fel cyn-ddyfarnwr fy hun, dysgais lawer ganddo ynghylch sut i reoli gemau mawr a bach. Dwi'n edrych ymlaen i'w groesawu atom yn Llanfairfechan."

Dyma noson gwerth chweil i bawb sy'n mwynhau gwrando ar storïwr a sgwrsiwr penigamp.  Mae'r noson yn costio £40 i aelodau'r cyhoedd gan gynnwys bwyd. Holwch unrhyw aelod o'r côr neu cysylltwch â'r côr drwy e-bost am fwy o fanylion.

# Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Steve Sherrington sy'n canu gyda'r tenoriaid cyntaf.

**Be' ydy dy enw llawn?** Stephen Jones Sherrington
**Oed?** 61
**Gwaith** Athro wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** Tregarth
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Bangor
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers Medi 2021
**Pa lais wyt ti?** Tenor 1
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** I ganu, cymdeithasu ac i ymdoddi mwy yn y gymuned a'r ardal.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Anodd deud mor gynnar. Mae gwaith dysgu ond rwy'n mwynhau. Wedi dweud hynny rwy'n hoff o '*Cŵyn y Gwynt*' a '*Benedictus*'.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Rwy'n hoff o wrando ar lawer o ganeuon pop. Teimlaf bod rhai a allai fod yn addas i'r côr ganu. Fel arall rwy'n fodlon canu pop ar ôl cwpl o beints bob hyd yn hyn.



**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Ar ôl dechrau yng nghyfnod y Cofid eto i ddod mae'r atgofion.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Rwy'n hoff o chwaraeon, crwydro'r mynyddoedd, gweithgareddau awyr agored, garddio, teithio a chymdeithasu efo ffrindiau, ond 'does dim gwell na bwyd da mewn lleoliad braf.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Dwi'n edrych ymlaen am bob cyfle.

# YSGOL BODFEURIG

### Mabolgampau
Daeth yr haul allan i wenu wrth i ni groesawu rhieni a ffrindiau yn ôl i'r ysgol ar gyfer ein mabolgampau a hynny am y tro cyntaf ers tair blynedd! Cafwyd llawer o hwyl a chystadlu, diolch i bawb ddaeth i gefnogi, roedd y plant wrth eu boddau.

### Taith Gerdded
Cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol daith gerdded yn ddiweddar gan fynd ar daith o amgylch Moelyci. Cafwyd llawer o gefnogaeth i'r daith a phawb yn gwneud eu gorau er gwaethaf coesau bach blinedig ar ddiwedd y dydd. Diolch o galon i bawb fu'n cerdded a phawb fu'n noddi. Llwyddwyd i godi bron i £700 tuag at yr ysgol. Diolch!

### Ymwelwyr
Y mis yma roedd thema ddiddorol i ymwelwyr yr ysgol – pobol sy'n ein helpu!

### Tîm Achub Mynydd
A ninnau yn ysgol ar gyrion mynyddoedd Eryri peth naturiol iawn oedd gwahodd rhai o dîm achub mynydd Dyffryn Ogwen i'r ysgol i'n dysgu am y gwaith arbennig maent yn ei wneud. Cafodd pawb ddysgu am sut i gludo rhywun yn ddiogel o'r mynydd os ydynt wedi brifo yn ogystal â chael hwyl yn archwilio'r Land Rover arbennig sy'n llawn offer. Diolch o galon i Rob a Tim am ddod acw i'n gweld, tybed oes achubwyr mynydd y dyfodol yn ein plith?!



### Y Frigâd Dân
Gallwch ddychmygu'r cyffro fu acw wrth i frigâd dân droi i fyny yn y maes parcio! Daeth ymladdwyr tân o'r orsaf ym Mangor i'n gweld i'n dysgu am y gwaith pwysig maent yn ei wneud. Cafwyd pnawn gwerth chweil yn rhoi dillad person tân ymlaen, trio'r pibelli dwr a holi'r ymwelwyr am eu gwaith. Diolch am roi eich amser i ddod i'n gweld.




### Byw'n Iach
Mae ein sesiynau Byw'n Iach bron a dod i ben. Yn ystod y misoedd diwethaf mae plant dosbarth Ogwen wedi cael gwledd o brofiadau yn ogystal â'r cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a chadw'n heini. Un o'r profiadau olaf oedd cael ymweld â Phlas Ffrancon i drio nifer o weithgareddau gwahanol. Cafodd pawb amser wrth eu boddau. Yr unig beth sydd ar ôl nawr yw prawf ffitrwydd - tybed pwy fydd wedi gwell eu ffitrwydd yn ystod y cyfnod yma??

### Amser Golchi
Fel rhan o'u thema Pitran Patran mae dosbarth Idwal wedi bod yn dysgu am sut roedd pobol yn golchi dillad ers talwm. Roedd llawer wedi synnu wrth weld cymaint o waith oedd yn mynd i mewn i gadw dillad yn lân ond cafwyd llawer o hwyl yn rhoi cynnig arni. Roedd llawer o blant blinedig erbyn diwedd y dydd – diolch byth am beiriannau golchi dillad erbyn heddiw!



### PC Owain
Diolch i PC Owain am ymweld unwaith eto ar ei daith o amgylch ysgolion yr ardal. Diolch am ddysgu dosbarth Idwal am chwarae'n ddiogel. Bu blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn dysgu am beryglon alcohol, sylweddau ac ysmygu tra bo blwyddyn 5 a 6 wedi dysgu am ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Gallwch ein dilyn ar trydar **@ysgolbodfeurig** am fwy o hanes yr ysgol!

# Disodli Enwau Lleoedd Cymraeg gan Ieuan Wyn

Yn *Llais Ogwan* y mis diwethaf, cyhoeddwyd rhestr o enwau Saesneg sy'n disodli enwau lleoedd Cymraeg yn Nyffryn Ogwen a'r cyffiniau. Yn dilyn ymddangosiad y rhestr, derbyniwyd enghreifftiau eraill, sef:

Water Street (**Lôn Ddŵr**, Talybont)
The Spinnies (**Coed Llyn Celanedd**, Aberogwen)
Lavan Sands (**Traeth Lafan**, glan Afon Menai)
Stinky Lane (**Llwybr Twll Pistyll**, Talybont)

Wrth reswm, mae'r hyn sy'n digwydd yn fater sy'n cythruddo llawer, ac mae ymgyrch ers deugain mlynedd i geisio atal hyn. Bellach, o dan bwysau cynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi addo gweithredu i warchod enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhyngddi â Phlaid Cymru.

Serch hynny, nid yw Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg, wedi rhoi sicrwydd y bydd deddfu ar y mater. Cefin Campbell AS sy'n gyfrifol ar ran Plaid Cymru am fonitro gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn yn benodol, a chafwyd gwybod gan Adam Price AS, Arweinydd Plaid Cymru, fod rhaid cael cyfraith i warchod enwau lleoedd Cymraeg. Heb hynny, bydd y broses warthus hon yn parhau.




# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**©Dr J. Elwyn Hughes**



Yn f'ysgrif dd'wetha', soniais am *21 Rhes Ogwen*, sef *Siop Orme*. Ond gwae fi, mi wnes gamgymeriad – rhif **19** oedd Siop Orme (*nid* 21) a dw i'n ddiolchgar iawn i Gareth Lewis (a arferai fyw ychydig ddrysau oddi wrth Siop Orme) am fy nghywiro.

Ymateb arall i'r cyfeiriad a wnes i at Neuadd yr Eglwys (*Church House*) yn rhifyn mis Mai oedd ysgrif ragorol fy nghyfaill agos, John Ffrancon Griffith, Abergele, ond gynt o Dŷ'r Ysgol, Glanogwen. Rwy'n hynod ddiolchgar i John am roi cnawd am esgyrn sychion f'ymdrech annigonol i.

* * *

Dw i am ddechra'r mis hwn drwy dd'eud ychydig eiriau am Rif 20. Hwn oedd Tŷ Gweinidog Capel Jerusalem. Ni wn pwy oedd ei breswylwyr cyntaf o blith Gweinidogion y Capel a'u teuluoedd ond gwn fod y Parchedig Thomas Arthur Jones a'i deulu yn byw yno ym 1933 - dyna pryd y codwyd TAJ yn Weinidog Capel Jerusalem. Fo oedd yng nghanol yr helynt ynghylch y faciwîs a anfonwyd i lochesu yn yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd - darllenwch *Y Diwyd Fugail a Helynt y Faciwîs*, y gyfrol ddiddorol a dadlennol a gyhoeddwyd yn 2015 gan ei ferch, Marion Arthur Jones. Cofiaf i'r Parchedigion Isaac Parry a Griffith Parry fyw yno ond y teulu olaf â chyswllt â Chapel Jerusalem a fu'n byw yn Rhif 20, yn ôl a gofiaf i, oedd y diweddar annwyl Barchedig T. J. Hughes, bugail cydwybodol a chyfaill triw.

Ychydig is i lawr, bu gŵr adnabyddus arall yn byw yn Rhif 17, sef y Parchedig Rhys J. Huws, Gweinidog Capel Bethesda a sefydlodd Eisteddfod y Plant Iwyddiannus iawn yn yr ardal, fel y gwnaethai ym Methel, ger Caernarfon, lle bu'n Weinidog cyn dod i Fethesda ym 1905. Mae coflech wedi'i gosod ar Rif 17 i'w goffáu. Cewch ei hanes yn y llyfryn *Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen*, a gyhoeddwyd yn 2012 gan Bwyllgor Coflechi Dyffryn Ogwen.

Yna, down at siop y bydd llawer yn ei chofio fel y 'Beehive', siop ddillad, yr anfarwolwyd ei henw yn *Un Nos Ola Leuad* pan soniodd Caradog Prichard am y cymeriad Ffranc Bee Hive. Yn ddiweddarach, bu hon hefyd yn siop lle'r oedd Arfon Jones yn gwerthu dillad ac offer pwrpasol i ddringwyr.

Symudwn ychydig is i lawr eto at lle mae Caffi Fitzpatrick heddiw. Dw i bron yn siŵr (ond brysiwch i'm cywiro os gwyddoch yn wahanol) mai dyma lle'r oedd Siop Cloth Hall ers talwm, siop ddillad arall, a fu hefyd yn 'lle dôl' ganol y ganrif dd'wetha'.

Bydd nifer o bobl yr ardal yn siŵr o gofio meddygfa'r ddau feddyg, Dr Bowen Jones a Dr Mostyn Williams (a gawsai ei eni, gyda llaw, ym Mhatagonia) ac ychydig ddrysau o'r feddygfa, yn hwylus iawn, roedd siop y fferyllydd, Eifion Jones. Deuthum ar draws hysbyseb yr Ogwen Pharmacy a gyhoeddwyd tua 1953 dan enw 'Eifion Jones M.P.S, , F. N. A. O., Chemist – Optician ... Bethesda 271', a rhes o eitemau'n dilyn a bwysleisiai'r amrywiaeth o ddeunyddiau oedd ar werth yno:

> *Drugs – Proprietary Medicines / Household – Preparations / Surgical Dressings and Sickroom Requiities / Toilet Goods & Perfumery / Veterinary & Horticultural Supplies / Photographic Equipment : Films, Cameras, etc. / Binoculars, Telescopes, etc,*

Ac, yn goron ar y cyfan, mae'r wybodaeth a ganlyn mewn llythrennau breision:

*SPECIAL ORDERS SPEEDILY DESPATCHED*

Ac o'r drysorfa honno o siop hyd at derfyn Rhes Ogwen, roedd Siop Letty (Morris) yn gwerthu dillad plant yn bennaf; siop y Bwrdd Nwy; Banc Lloyd's ac, ar y pen, Siop Fara a Chacennau 'Nymbyr Wan'. Roedd estyniad y tu ôl i'r siop hon lle'r oedd becws â mynedfa iddo o'r lôn gul a redai'n gyfochrog ag Afon Ogwen ac iddi ddwy fynedfa: naill drwy'r bwlch rhwng Capel Bethesda a Nymbyr Wan yn y pen isa neu, yn y pen uchaf, heibio i dalcen Gwesty'r Douglas Arms.

Byddwn yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un sydd â gwybodaeth ddiddorol, atgofion, neu ffeithiau pwysig naill ai am y siopau yn Rhes Ogwen 'ers talwm' neu am y perchnogion neu'r bobl a weithiai ynddyn nhw.

I'w barhau...

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN



**Bethesda'r Dyfodol**
Fel rhan o'u gwaith thema aeth Blynyddoedd 3 a 4 ar daith o amgylch yr ardal leol er mwyn adnabod y nodweddion positif a'r nodweddion negyddol o fewn eu cynefin. Ar ôl tynnu lluniau a chreu rhestr roedd pawb wrth eu bodd wrth sylwi fod yr holl nodweddion positif yn gorbwyso'r rhai negyddol. Penderfynodd y plant eu bod yn awyddus i helpu gyda'r broblem sbwriel gan dreulio pnawn yn tacluso Bethesda. Gobeithio y bydd pawb yn y gymuned yn cefnogi eu hymdrechion i gadw Bethesda yn lân a thaclus ar gyfer y dyfodol.



**Cit Chwaraeon newydd!**
Diolch yn fawr iawn i gwmni 'Welsh Slate' sef rhan o'r *Breedon Group* am noddi cit chwaraeon newydd sbon ar gyfer Ysgol Pen-y-bryn! Yn wir, mae'r plant yn edrych yn ddigon o sioe ynddynt!

**Ffilm Cyflwyno Cwricwlwm i Gymru**
Mae hi'n gyfnod cyffrous ym myd addysg yng Nghymru gyda dyfodiad cwricwlwm newydd yn swyddogol o fis Medi 2022. Felly penderfynwyd ei bod hi'n bwysig fod pawb yn ymwybodol o'r newidiadau (yn blant, rhieni, Llywodraethwyr a'r gymuned), ac yn deall cefndir a nod y cwricwlwm hwn. Felly aeth plant blwyddyn 2 a 6 ati i greu ffilm fer yn crynhoi'r cefndir, pwrpas y pedwar diben, y chwe maes dysgu, y camau cynnydd a llawer mwy mewn ffordd hwyliog a bywiog. Mae'r ffilm i'w weld ar sianel Youtube https://youtu.be/m77ZFrML9rE , felly ewch ati i'w gwylio. Mwynhewch!!

**Twm Siôn Cati**
Heidiodd holl blant Ysgol Penybryn i theatr Pontio yn lled ddiweddar i weld cynhyrchiad gan gwmni Yr Arad Goch am hanes Twm Siôn Cati. Cawsom wledd o'r dechrau i'r diwedd, a phawb wedi mwynhau bob eiliad o'r perfformiad.

**Nofio**
Rydym wedi rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau nofio plant o flwyddyn 2 – 6 ers i'r pyllau nofio ail-agor wedi'r cyfnod clo gan gludo ein disgyblion yn wythnosol i Fangor am wersi nofio. Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion Blwyddyn 6 am basio gwobr Sgiliau Dwr y Cwricwlwm Cenedlaethol ac Achub Bywyd ym Mhwll Nofio Bangor. Da iawn!

**Mabolgampau**
Braf oedd gallu croesawu rhieni a theuluoedd atom i fwynhau dau ddiwrnod o fabolgampau ar dir Abercaseg ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Cawsom gystadlaethau difyr, hwyliog gan y plant...a'r rhieni hefyd!  Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r tywydd am fod yn deg.



**Mr Phormula**
Braf oedd croesawu'r rapiwr o fri, Ed Holden neu Mr Phormula i ddiddanu a chreu gweithdai cyfansoddi efo'r plant. Yn wir, cafodd pawb eu syfrdanu â'i dalentau cerddorol.

**Criced**
Aeth ugain o blant blwyddyn 6 i ŵyl griced yng nghaeau'r clwb lleol yn ddiweddar. Bu chwarae a chystadlu brwd rhwng ysgolion y dalgylch, a'r haul yn gwenu'n braf arnynt. A gwenu fel giât oedd y tîm buddugol o Ysgol Penybryn, a lwyddodd i ddod i'r brig mewn cystadleuaeth o safon uchel. Llongyfarchiadau mawr i chi blant, a diolch i Mr Glyn Jones a Miss Lisa Hughes am eu gofal a'u cefnogaeth yn ystod y diwrnod.

**Ffarwelio**
Ymysg ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 eleni, rydym hefyd yn ffarwelio ac yn dymuno'n dda i aelodau o staff o'r ddwy ysgol. Mae Miss Glesni Jones, Miss Glesni Edwards (Pen-y-bryn) a Miss Hannah Burton (Abercaseg) wedi bod hefo ni ar gytundeb dros dro am flwyddyn ac wedi llwyddo i gael swyddi dysgu newydd ym mis Medi. Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol gyda diolch am eu gwaith diflino.


Gyda chalon drom hefyd rydym yn ffarwelio gyda Miss Siân Griffiths. Mae Siân wedi bod yn aelod amhrisiadwy o staff Ysgol Abercaseg ers 16 o flynyddoedd. Heb os, mae wedi mynd y filltir ychwanegol i blant, rhieni a staff Ysgol Abercaseg ac rydym fel staff a chenedlaethau o blant wedi bod yn hynod o ffodus yn cael cymhorthydd medrus, gweithgar a charedig. Yn sicr, mi fydd bwlch mawr ar ei hôl. Dymunwn yn dda iddi yn y maes gofal ac iechyd yn yr haf.



**Teithiau Addysgol**
Ymysg nifer o ymweliadau addysgol eraill, cafodd plant Abercaseg diwrnod i'w gofio wrth deithio dros y bont i Fferm y Foel ym Mrynsiencyn er mwyn dysgu mwy am ofalu am anifeiliaid a byd natur. Cafodd Blwyddyn 2 hefyd y fraint o gael diwrnod llawn hwyl yng Nghelli Gyffwrdd, am hwyl a sbri!

Bydd plant Pen-y-bryn yn ymweld â Gelli Gyffwrdd unwaith eto a phlantos Abercaseg yn mynd am drip i Sw Bae Colwyn cyn diwedd y tymor! Mae 'na hen edrych ymlaen yn wir!

# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Rhan fach o well esiampl wna bethau'n fwy manteisiol (3)
3 Mae'n medru, yn ddoeth (3)
5 Hollol groes i 3 Ar Draws (4)
8 Blaguro (5)
9 Wedi crymu (7)
10 Offerynnau llinynnol (7)
12 Cafwyd dau Harri o'r tŷ hwn (5)
13 Dim un copa walltog (3)
15 Y crychydd hirgoes (5)
17 Tynnu canol maneg cyn ei rhoi'n ôl i chwarae criced efallai (3)
19 Rhoi trefn ar y gwallt (5)
20 I yn lle yw mewn breuddwyd cas yn dangos diffyg glanweithdra (7)
23 Tregaron 'leni, o'r diwedd (7)
24 Fel y maen sy'n gwylio'r felin enwog yn y de Crwys (5)
25 Ager-gerbydres oedd yr hen enw arni (4)
26 "- - - lygad disglair fel dwy em" oedd gan gariad JMJ (3)
27 Enw'r Gwaredwr, 'Mab y - - -' (3)

## I LAWR

1 Gall oren crwn glân ymdebygu i leuad llawn, golau (7)
2 Blodau tansi persawrus yn daclus i'r bobl grefyddol (5)
3 Ugeiniau lawer ohonynt er clod yn 23 Ar Draws (5)
4 Ynghanol mantell y grug mae sbwriel yn hagru a difwyno (5)
5 Trwch a thewdra (7)
6 Go gall dy waith yn syllu'n fanwl a chraff (7)
7 Cariad gŵr o Barcelona (4)
11 Etifedd yn anadlu efallai (3)
14 Y Geraint fu'n rhagori yn Ffrainc a Swisdir (7)
15 Medd y cynganeddwr amdano, "Llethrau hardd y Du'r Arddu" (7)
16 Awchu a dyheu (3)
18 Math o ysgol (7)
19 Lle peryglus os nad yn ofalus yw'r rhan yma o 15 I Lawr (4)
20 Bu arweinwyr yr helfa yn brysur wrth lenwi eu drylliau (5)
21 Diben 18 I Lawr (5)
22 Canlyniad defnyddio 20 I Lawr (5)

## ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2022

**AR DRAWS** 1 Pigyn, 3 Codwm, 6 Caredigrwydd, 8 Dydi, 11 Edau, 13 Anner, 14 Malu, 16 Wylo, 19 Tîm Peldroed, 20 Lenin, 21 Gwydn
**I LAWR** 1 Paced, 2 Gwrid, 4 Diwyd, 5 Maddau, 7 Iawndal, 9 Yma, 10 Iau, 11 Erw, 12 Abl, 14 Metel, 15 Lem(w/o)n, 17 Yfory, 18 Oedwn

Dyma'r camgymeriadau y tro hwn: 'creadigrwydd' yn lle 'caredigrwydd' (6 Ar Draws), 'gwelw' yn lle 'gwrid' (2 I Lawr), 'dywn' yn lle 'dydi' (8 Ar Draws), 'rydym' yn lle 'codwm' (3 Ar Draws), ac 'oedyn' yn lle 'oedwn'(18 I Lawr).
Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir: Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys W. Griffiths, Abergele; Rosemary Williams, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Rita Bullock, Ann Morris, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gill King, Mynydd Llandygai; M. A. Jones, Rachub; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas.

Llongyfarchiadau i Ann Morris, 26 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, Bangor, Gwynedd ar ddod yn fuddugol y tro yma.
Atebion erbyn 26ain Awst, 2022 fan bellaf i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD. (Peidiwch ag anghofio â'i gadael hi'n rhy hwyr!) Mwynhewch y seibiant dros yr haf.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# Cynllun 'Cloddio'

Efallai bod rhai o'r darllenwyr yn fy adnabod yn barod ers i mi fyw ym Methesda dros y flwyddyn ddiwethaf, ond ar gyfer rheini sydd heb fy nghyfarfod, dyma gyflwyniad i beth yn union dwi'n trio ei gyflawni. Cefais fy mhenodi fel Offeiriad Cymuned Arloesol gan Esgobaeth Bangor, ac yn arweinydd prosiect newydd sydd wedi ei leoli yma yn yr ardal. Y bwriad yw creu cymuned newydd Gymreig ar gyfer pobl ifanc sy'n awyddus i archwilio ac ystyried gweithio o fewn y maes ffydd yn y dyfodol. Mae enw'r cynllun, 'Cloddio', yn adlewyrchiad o'n hamcanion i gynorthwyo pobl i fynd yn ddyfnach i'w ffydd, yn ogystal â chyfeirio at gefndir hanesyddol y gymuned yma.

Bydd Cloddio yn gyfle i arbrofi, dirnad cryfderau a thalentau, holi, a datblygu sgiliau newydd. Gall dod i ddiwedd cyfnod astudio yn y brifysgol neu'r coleg fod yn un ansicr ar un llaw ac arwyddocaol ar y llall, yn enwedig ar gyfer rhai sy'n ystyried cymryd blwyddyn allan i feddwl ac ystyried y llwybr y dylent ei ddilyn. Yn hyn o beth byddai ymuno â chymuned Cloddio yn gyfle gwych i bwyso a mesur ac ystyried y cam nesaf.

Fel rhan o gynllun Cloddio, bydd y bobl ifanc yn byw gyda'i gilydd am flwyddyn ym Methesda, gyda'r holl heriau a chyfleodd sy'n dod law yn llaw gyda'r fath brofiad. Byddant yn cael cyfle i adeiladu perthynas gyda'r gymuned ehangach a dysgu sut i gyd-fyw, cyd-weithio a darganfod mwy amdanynt eu hunain ac eraill, ac am eu ffydd.

Bydd yna ddarpariaeth o ran arweiniad ysbrydol ynghyd â'r cyfle i ddirnad galwedigaeth i weinidogaeth neu i ddatblygiad ysbrydol personol. Gobeithiwn ddatblygu a meithrin rhythm bywyd trwy ymchwilio i wahanol draddodiadau ysbrydol a dod ynghyd i gyd-weddïo yn rheolaidd. Bydd lle i 3 aelod a thelir cyflog iddynt yn flynyddol. Eu prif gyfrifoldebau dyddiol fydd ceisio cyd-ddatblygu bywyd cymunedol y prosiect ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Bydd amryw o sgiliau yn cael eu datblygu drwy'r flwyddyn, yn enwedig y ddawn o arwain eraill, ac o ddeall pwysigrwydd arweinyddiaeth aeddfed, adeiladol a chreadigol.



Y Parch Sara Roberts

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu adnoddau wrth i ni symud ymlaen gyda'n gweledigaeth ym Methesda. Rhan bwysig iawn o'r cynllun fydd creu adnoddau gwreiddiol, cyfoes Cymraeg ar gyfer eu defnyddio yn ein cymuned â'r eglwys Anglicanaidd ehangach (ac efallai ymhellach). Bydd datblygiad yr adnoddau yma yn seiliedig ar drafodaeth, astudiaeth a phrofiad ein pobl ifanc ac yn gyfle gwych iddynt fod yn rhan o waith arloesol o fewn yr Eglwys yng Nghymru.

Os oes unrhyw un â diddordeb yn y prosiect ac eisiau sgwrs i drafod ymhellach, yna cysylltwch â fi ar sararoberts@eglwysyngnghymru.org.uk

Yn y cyfamser, wrth weithio i baratoi ar gyfer y gymuned newydd, rwyf wedi mynd ati i gynnal digwyddiadau amrywiol o gwmpas Bethesda o dan enw 'Eglwys Wyllt'. Cyfarfodydd yn awyr agored yw rhan fwyaf o'r digwyddiadau, gyda cherddoriaeth, stori, myfyrdodau a dathliad syml i gynorthwyo pobl i gysylltu â'u hysbrydolrwydd ym myd natur. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni a bod yn rhan o rywbeth cyffrous a llawn symudiad yr Ysbryd Glân.

Mae gweithgaredd nesaf yr 'Eglwys Wyllt' ar 23 Gorffennaf i ddathlu diwedd tymor yr ysgol, gyda'r lleoliad i'w gadarnhau. Mae bwriad cynnal rhagor o weithgareddau ar 13 a 27 Awst gyda'r union fanylion i'w trefnu. Dilynwch dudalen Facebook yr "Eglwys Wyllt' am y manylion.

**Y Parch Sara Roberts**

# Wythnos Cymorth Cristnogol 15-21 Mai 2022

Fel bydd nifer o ddarllenwyr Llais Ogwan yn gwybod, thema Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd cefnogi teuluoedd yn Affrica sydd wedi dioddef yn arw oherwydd sychder, sef un o effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Fel y llynedd, roedd yr amlenni yn cael eu dosbarthu i gartrefi'r ardal a gofynnwyd i bobl eu dychwelyd i fannau casglu, sef Partneriaeth Ogwen a Siop Rachub. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau sefydliad hyn am gytuno i'n helpu. Diolch yn fawr hefyd i bob gwirfoddolwr a roddodd yr amlenni drwy'r drysau ym Methesda, Tregarth, Gerlan, Rachub, Llanllechid, Carneddi a Thalybont.

Roedd yn braf iawn cynnal bore coffi eleni ar 7fed o Fai yng Nghanolfan Cefnfaes, a oedd yn dra llwyddiannus. Diolch yn fawr i Neville Hughes am ei drefnu, y stondinwyr a'r helpwyr a phawb a oedd yn mynychu. Llwyddwyd i godi £450, a oedd yn swm ardderchog a chychwyn da iawn i'r wythnos.

Diolch unwaith eto i Walter a Menai Williams am drefnu'r gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol yng Nghapel Jerusalem ar nos Sul 15fed o Fai ac i Mrs Nerys Griffiths a arweiniodd y gwasanaeth, gyda chymorth Ceri Dart, Joe Hughes, Neville Hughes, Nicola Hughes a Menai Williams. Casglwyd £251 at yr achos trwy'r Eglwys Unedig.

Cafwyd £270 fel rhoddion gan eglwysi eraill yr ardal, sef Eglwys Shiloh ac Eglwys y Gelli yn Nhregarth, ac Eglwys Sant Tegai, Llandygái. Cyfrannodd Eglwys Glanogwen trwy stondin yn y bore coffi.

Derbyniwyd £1,528.65 yn ôl yn yr amlenni, ac ar ben hynny ni wyddom faint o bobl sydd wedi rhoi trwy dderbyn yr opsiwn gwneud rhodd ar-lein a oedd ar yr amlen hefyd. A bydd modd i Gymorth Cristnogol hawlio £201.25 trwy Rodd Cymorth gan y rhai sy'n medru manteisio arno.

Mae'n braf cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi mwy o arian eleni, er gwaetha'r amgylchiadau ariannol caled sydd yn ein hwynebu. Codwyd £2,498.65 yn uniongyrchol trwy'r gweithgareddau, sy'n cynyddu i gyfanswm o £2,699.90 gyda Rhodd Cymorth.

A dyma negeseuon o ddiolch o Zimbabwe:

"Dwi mor ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu i'n helpu ni, ac am bob peth dan ni wedi'i dderbyn," meddai Janet. "Cawsom ieir i'w magu. Cawsom fwyd ac mi ydan ni i gyd yn iach. Diolch i Gymorth Cristnogol am ddod â'r pethau yma i ni. Mi rydan ni'n eich annog i barhau gyda'r gwaith er mwyn eraill. Rydan ni mor ddiolchgar."

Mae Jessica hefyd wedi derbyn hyfforddiant amaethyddol sydd wedi ei galluogi i dyfu mwy o fwyd ar ei thir. Mae hi hefyd wedi ymuno gyda grŵp cynilo yn y pentref oedd yn fendith fawr iddi drwy amser caled yn ddiweddar. Meddai Jessica: "Hoffem ddatgan ein diolch o waelod calon i'ch cefnogwyr am ein helpu i gael bywyd gwell. Mae hyn yn fy ysbrydoli i weithio yn galed ac edrych ymlaen yn obeithiol i'r dyfodol. Rydym yn gweithio'n galed i wneud yn fawr o'r cyfle rydym wedi ei dderbyn. Diolch yn fawr."

**Lester Bath**, Cydlynydd Wythnos Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch


TŶ BECWS
THE BAKEHOUSE
72 Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AR

Coginio Cartref Blasus

Cacennau o bob math
Sosej Rôls, Peis, Pastis, Paninis, Baps

Hefyd gellir archebu:-
Cacennau Dathlu , Te Prynhawn
Bocsus Brecwast, Brechdanau, Bwffe

07933 652 297
thebakehousebangor@gmail.com

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

Anfonwn ein cofion at Mrs Dilys Edwards Ffordd Coedmor sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar ac wedi aros gyda'i mab a merch yng nghyfraith, Gareth a Beryl. Mae hi bellach yn ôl adref. Brysiwch wella Dilys.

**Cofeb Gwenllian**
Ar Ddydd Gwenllian aeth criw o'r ardal (Dafydd Gwilym a Margaret Jones, Menna Wyn Jones a Blodeuwedd Wyn) ar daith at gofeb Gwenllian yn Sempringham, Swydd Lincoln. Tywyswyd y daith gan Llion Williams, a'i threfnu gan Deithiau Elfyn Thomas.



Taith ddiweddar i weld cofeb Gwenllian

**Ysbyty**
Cofion cynnes at bawb fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella.
Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Arwyn Oliver, Ffordd Bangor; Mary Owen, Maes Coetmor; Hazel Owen, Maes Coetmor; Brian Parry, Brynteg; Alan Parry, Glanogwen.

**Penblwyddi Arbennig**
Penblwydd hapus a phob dymuniad da i'r tri a fu'n dathlu cyrraedd 80 mlwydd oed ym mis Mehefin, sef Charles Doyle, Arafa Don ar y 18fed, Dafydd Gwilym Jones, Pantglas ar y 19eg, a Glasnant Davies, Carneddi ar yr 21ain.
Llongyfarchiadau hefyd i Richard Hughes, Lôn Sarnau, ar ddathlu'r 80 yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Gwynfor Thomas, Bro Derfel, Tregarth, (gynt o Ffordd Ffrydlas).

**Marwolaethau**
*Helen Jones*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Mehefin, bu farw Helen Jones, 15 Rhes Elfed, yn 77 mlwydd oed. Priod annwyl Rheinallt, mam hoffus i Brian a Gwenda, a hen nain annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mawrth, 14 Mehefin, gyda gwasanaeth yng Nghapel Shiloh, Tregarth a Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.




# Eglwys Crist, Glanogwen

**Codi Arian**
Diolch i'r rhai hynny ddaeth i gefnogi'r Noson Bingo yn y Clwb Criced a Bowlio nos Wener, 17 Mehefin. Gwnaethpwyd elw o £230 tuag at yr Apêl. Diolch fel arfer yn arbennig i'r Clwb Criced am eu croeso, ac i Mr Fred Buckley am ei wasanaeth ar y peiriant rhifau. Hefyd diolch i gefnogwyr y Bore Coffi ar 25 Mehefin, pan wnaethpwyd elw o £275 tuag at gostau'r eglwys.

**Enillwyr Clwb Cant mis Mehefin**:
£50: – 110 – Mrs Rhiannon Hughes
£20: – 136 – Mr Len WIlliams
£20: - 26 – Mrs Betty Williams

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Cyngerdd**
Mae trefniadau yn eu lle bellach i'r Cyngerdd Mawreddog gan Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Marsh o Huddersfield, i'w gynnal yn yr eglwys nos Sadwrn, 24 Medi i gychwyn am 7. Mynediad yn £10, a £5 i rai dan 16.
Tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr ac aelodau'r eglwys, a hefyd yn Siop Ogwen. Bydd elw'r noson i fynd at atgyweirio tŵr yr eglwys. Diolch i'r ddau gôr am eu haelioni.



**Dathliad Dwbl**
Llongyfarchiadau gwresog i Menai Williams, Erw Las, yn dilyn dyfarnu Gradd Meistr mewn Cerddoriaeth iddi gan Brifysgol Cymru, Bangor yn ddiweddar, am ei chyfraniad i ddiwylliant, iaith, cerddoriaeth a'r celfyddydau Cymreig.
Nododd y Brifysgol eu bod yn awyddus i gydnabod ei chyfraniad fel beirniad, tiwtor a chyfansoddwraig, telynores, ac fel arweinydd a chyfeilydd corau meibion yr ardal. Hi oedd y ferch gyntaf i gipio Medal Goffa Ivor E Simms pan enillodd y brif gystadleuaeth i gorau meibion gyda Chôr Meibion Caernarfon.
Ond nid dyna ddiwedd y dathlu. Ar yr un diwrnod, derbyniodd wyres Menai - Buddug Watcyn Roberts, o Ben y Ffriddoedd, Tregarth - radd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg hefyd (mewn seremoni a ohiriwyd am flwyddyn oherwydd y pandemig). Y mae Buddug ar fin cwblhau cwrs gradd meistr mewn Ysgrifennu Creadigol, a bydd yn dechrau ar ei Doethuriaeth yn Nhymor yr Hydref. I goroni'r cyfan, gwahoddwyd Buddug i ddarllen cerdd o waith y Diweddar Athro Gwyn Thomas yn y seremonïau graddio. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddwy ohonoch!

Gan fod yr ymateb i'r Apêl wedi tawelu braidd yn dilyn helynt y Cofid, gobeithiwn yn fawr am gynulleidfa gref ar gyfer y Cyngerdd i roi hwb i'r Gronfa.

Hefyd os oes unrhyw un yn fodlon dod ymlaen â syniadau am drefnu gweithgareddau codi arian, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

**Gweddïau**

Cofiwn yn ein gweddïau am bawb sydd yn sâl neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sy'n hiraethu am anwyliaid; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

**Gwasanaethau**

Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.

Croeso cynnes fel arfer i bawb.

**Manylion Cyswllt**

Gellir cysylltu bellach â'r ficer, y Parch. Ddoctor Gareth Llwyd, ar 07847 125 225 neu'r Deon Gwlad, y Parch. Tracy Jones ar 01248 361876 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Cofiwch fod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am sgwrs.

## Carneddi

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Mari a Martin Beattie, Maes yr Athro, yn eu profedigaeth o golli mam Mari yn ddiweddar.




# Yr Eglwys Unedig

**Diolch**

Unwaith eto, mae ein dyled, a'n diolch, yn fawr i'r canlynol am arwain ein hoedfaon yn ystod yr wythnosau diwethaf yma: Mr Gwilym Williams; Mrs Nerys Griffiths; Y Parchedig Olaf Davies; Canon Idris Thomas; Mrs Ceri Dart; Mrs Minnie Lewis; Y Parchedig Anna Jane Evans; Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans; a'r Parchedig Brian Wright. Gwerthfawrogwn eu parodrwydd i ddod atom i'n gwasanaethu, a daw bendith cyson i ni o bob cenadwri a gyflwynir ganddynt.

**Cymun**

Cawsom oedfa Gymun hyfryd yn gwmni'r Parchedig Anna Jane Evans nos Sul, 5 Mehefin. Yn ystod y pandemig, 'rydym wedi bod yn defnyddio offer parod ar gyfer y Cymun, ond gobeithiwn y cawn fynd yn ôl i ddefnyddio'r offer parhaol sydd gennym yn y Capel o hyn ymlaen. Dylid nodi ein bod wedi gwerthfawrogi'r offer parod oedd yn ein galluogi i gyflwyno'r Sacrament yn ddiogel, ond bydd yn braf cael dychwelyd i'r drefn arferol.

**Bedydd**

Yn ystod gwasanaeth arbennig iawn fore Sul, 19 Mehefin, bedyddiwyd Efa Non, merch fach Natalie ac Owen Thomas. 'Roedd yn braf gweld cynifer wedi dod i'r oedfa, a chafwyd cenadwri hynod o bwrpasol gan Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans. Mae Efa Non yn wyres i Mrs Linda Coulter, ac yn or-wyres i Mrs Betty Roberts. Croeso cynnes iddi i'n plith!

**Ethol Blaenoriaid**

Fore Sul, 26 Mehefin, yn ystod yr oedfa, cynhaliwyd pleidlais i ethol Blaenoriaid i'r Eglwys Unedig. Pleser yw cael cyhoeddi bod Mrs Carol Dewi Jones wedi'i hethol yn Flaenor, ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ymgymryd â chyfrifoldeb y swydd pan fydd wedi cael ei hordeinio. Pob dymuniad da, Carol.

**Profedigaeth**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Pam, gwraig Aled Hughes, yn dilyn gwaeledd byr. Mae Aled yn un o gyfeillion yr Eglwys Unedig, ac yn mynychu ein hoedfaon boreol yn selog dros ben o Solihull drwy gyfrwng y ffôn. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf, a'n cofion atat, Aled.

**Pen-blwydd arbennig**

Dymuna Menai Williams ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Cafwyd noson i'w chofio yn dathlu yng nghwmni teulu a ffrindiau yn y Brigands ym Mallwyd!

**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at yr aelodau hynny sydd yn methu dod i'r gwasanaethau ar hyn o bryd, am ba bynnag reswm. 'Rydym yn gweld eich colli, ac yn dymuno pob bendith i chwi i gyd. Diolch i Mrs Nerys Griffiths am ei hymweliadau cyson â'r rhai sydd yn fregus -gwerthfawrogwn ei hymroddiad.

**Llenwi'r Cwpan**

Braf yw cael nodi ein bod wedi ail-ddechrau cynnal y baned ar foreau Iau yn y Festri Fach. Mae croeso cynnes yn eich disgwyl - dewch atom am sgwrs rhwng 10 a hanner dydd!

**Cyhoeddiadau'r Sul**

17 Gorffennaf: Y Parchedig Huw Pritchard(10)
24 Gorffennaf: I'w drefnu
31 Gorffennaf: Y Parchedig Robert Capon (5)

4 Medi: I'w drefnu
11 Medi: Mr Dafydd Iwan (5)
18 Medi: Sul y Teulu (10)
25 Medi: Y Parchedig Gwyndaf Jones (10)

2 Hydref: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
9 Hydref: Y Parchedig John Owen (10)
16 Hydref: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (10 a 5)
23 Hydref: Mr Gwilym Williams (5)

**DALIER SYLW**: Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst.

**Gweddïau**

Gyda'r newyddion trist am y daeargryn yn Afghanistan, y rhyfel enbyd sydd yn parhau yn y Wcráin, a'r dioddefaint mawr sydd mewn llawer o wledydd byd, mae ein meddyliau gyda'r trueiniaid hyn i gyd. Dyma gyfieithiad o weddi E A Dingley gan Nantlais:

Rho imi nerth i wneud fy rhan
I gario baich fy mrawd,
I weini'n dirion ar y gwan,
A chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd, a gwared fi
Rhag culni o bo rhyw,
Rho imi weld pob mab i ti
Yn frawd i mi, O Dduw.

Gad imi weld dy ŵyneb-pryd
Yng ngwedd y llesg a'r gwael,
A gwrando'r cwyn nas clyw y byd,
Er mwyn dy gariad hael.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966) mairpenybryn@gmail.com

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Guto a Cadi Griffiths, Bryn Gwredog Isaf ar eu llwyddiant yn Sioe Llanrwst gyda'u defaid. Cafodd Guto ddau ail, un trydydd a "Reserve Champion" a Cadi 4ydd. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau gystadlu! Braf yw gweld pobl ifanc yn ymddiddori fel hyn, pob dymuniad da i'r cystadlu yn y sioeau'r haf yma!



Llongyfarchiadau Cadi



Da iawn Guto

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Sarah a Dave, Fferm Ty'n Ffridd ar eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da a hapusrwydd i'r dyfodol.

**Cylch Glasinfryn**

Ni fu cyfarfod o'r Cylch ym mis Mehefin oherwydd y gwaith uchod. Ar 12 Gorffennaf byddwn yn ymweld â Gerddi Botaneg Treborth gyda Bwffe yno. Ni fydd cyfarfod ym mis Awst. Byddwn yn ail gychwyn ar 14 Medi pan ddaw Menna Gilbert atom i ddangos a sgwrsio am ei chasgliad o wisgoedd hynafol. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan am 2yp.

**Y Ganolfan**

Mae'r Ganolfan wedi bod ar gau dros y mis diwethaf tra bo gwaith angenrheidiol yn mynd ymlaen yno i gysylltu'r tanc carthffosaeth i'r brif bibell yn y lôn fawr. Golyga hyn fod pob gweithgaredd yn y Ganolfan wedi cael ei ganslo nes y byddant wedi cwblhau'r gwaith.

# Criced – hanner cyntaf dda

Ar ddydd Sadwrn 2ail o Orffennaf cyrhaeddwyd hanner ffordd drwy'r tymor criced 2022.

Mae'r tîm cyntaf yn ddi-guro, gan ennill pob un o'r 11 gêm hyd yma a gyda bwlch o 36 pwynt ar frig Adran 2. Hyd yma mae buddugoliaethau wedi dod yn erbyn clybiau Caernarfon, Rhuthun, Carmel a Bersham. Llawer o berfformiadau da gyda'r bat a'r bel. Y gobaith yw y bydd yr tîm yn llwyddo i gael dyrchafiad y tymor yma.

Yn dilyn dyrchafiad i i Adran 3 y tymor diwethaf, mae'r ail dîm wedi cael dechrau calonogol, ac ar hyn o bryd maent yn chweched ar ôl buddugoliaethau yn erbyn Conwy, Maeshafn, Rhuthun a Pwllheli.

Mae'r tîm Merched, a oedd yn Bencampwyr Gogledd Cymru y llynedd, yn parhau yn ddiguro'r tymor yma. Mae buddugoliaethau wedi eu cael yn erbyn Llandudno, Carmel, Conwy a Llaneurgain hyd yma ac mae'r tîm hefyd yn rownd gyn-derfynol Cystadleuaeth Plât Cymru.

Yn yr Adran Ieuenctid, mae'r tîm dan 13 yn perfformio'n dda yn dilyn buddugoliaeth ddiweddar yn erbyn Llandudno. Maent yn ail yn eu Hadran sy'n cynnwys clybiau fel Porthaethwy, Llandudno ac Abergele ar hyn o bryd. Mae'r tîm dan 11 hefyd yn cystadlu'n wythnosol yn erbyn clybiau fel Bae Colwyn, Conwy, Porthaethwy a Llandudno.

Mae dal digon o gyfle i unrhyw chwaraewyr newydd o unrhyw safon a phrofiad i ymuno gyda'r clwb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda cricedbethesdacricket@outlook.com

**Rhys Pritchard**



Mae'r timau criced yn cael tymor llwyddiannus hyd yma

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini
01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106
*Porthaethwy* (01248) 719517
*Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616
*Pwllheli* (01758) 703000)

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

# Nyth y Gân



## MORLO

Ei nefoedd yw cael nofio, i gydio
Mewn pysgodyn yno;
Yn y ras o hyd ceir o
Yn yr eigion i rwygo.

Daw o'r hylif i dorheulo, a'i lun
Ar lannau'n ymlacio;
Mae'n gorweddian yn fan'no
Ar gwr y graig ar y gro.

---

## TŶ HAF

Bu bwrlwm ar un adeg
Rhwng waliau'r bwthyn hwn,
A sŵn ein hiaith fu yno
Yn rhan o'i fywyd crwn.

Ail gartref ydyw mwyach,
Bu tyweirch arno'n do,
A meini hynod gadarn
Fu'n ffurfio'i furiau o.

Nid yw'r hen fwthyn heddiw
Er bod ei wedd yn dlws
Yn rhoi i ni y croeso
Fel cynt ar garreg drws.

## MORGRUG HEDEGOG

Daw'r hynod rai ohonynt i rannu
Yr ynni sydd ganddynt
Ar ddiwrnod pryd roedd arnynt
Egni i godi'n y gwynt.

## BYWIOGRWYDD NATUR

O'n cwmpas y mae campau, yn y cae,
Yn y coed a'r blodau;
Eleni'n llawn o luniau
Eu gwych ryfeddodau'n gwau.

**Dafydd Morris**


SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn 07394 905881

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL


## Gŵyl Cynefin a Chymuned

Mi fydd Gŵyl Cynefin a Chymuned Dyffryn Ogwen yn cael ei chynnal unwaith eto eleni rhwng y 9fed a'r 11eg o Fedi.

Bydd y penwythnos yn cynnwys sgyrsiau, darlithoedd a theithiau cerdded, yn ogystal â bore i ddod i ddangos a thrafod hen eitemau a lluniau yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddydd Sadwrn y 10fed.

Am fwy o fanylion ewch i dudalen Facebook Partneriaeth Ogwen, neu e-bostiwch chris@ogwen.org


MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Gair o ddiolch**

Dymuna teulu'r diweddar Betty Morris (Bet), 41, Ffordd Tanrhiw, Tregarth, (Bryn Awel, Sling gynt) ddiolch o galon i'w chyfeillion a'i chymdogion am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled. Bu farw Bet ar y 9ed o Ebrill a derbyniwyd llu o gardiau yn ogystal â chyfraniadau er cof amdani i Awyr Las. Diolch arbennig i Gareth Williams, Bethesda am ei wasanaeth gofalgar a thrylwyr.



**Dathlu pen-blwydd priodas**

Mae 'na hen ddathlu penblwyddi priodas yn Tyddyn Dicwm a Tyddyn Dicwm Bach yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau bar a phob dymuniad da ac iechyd i'r dyfodol.

Ar 7 Mehefin dathlodd Nia a Kevin Hughes eu priodas Arian. Cyfarchion i chi eich dau.

Mi fydd rhieni Nia, sef Wynn ac Eirwen Williams yn dathlu 65 o flynyddoedd priodas ar 20 Gorffennaf. Mae'n debyg mai 'Blue Sapphire' ydi'r pen-blwydd priodas yma ac felly gobeithio bod cacen wedi'i haddurno mewn glas wedi ei drefnu ar eu cyfer.

Ardderchog yn wir ac yn haeddu dathliad go iawn eleni!


Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com


**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych**

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Roberts, Fferm Dob ar ei llwyddiant ysgubol yn cipio'r drydedd wobr yng nghystadleuaeth Cyfeilio gyda Thelyn o dan 19 oed. Mae Gwenno ym mlwyddyn 11 Ysgol Tryfan, Bangor, ac ar fin cwblhau ei arholiadau TGAU.

**Beti a'i Phobol**

Ar raglen Beti a'i Phobol ym Mis Mai roedd cyfle i wrando ar Beti George yn cyfweld Catrin Rhiannon Ellis Jones, merch John a'r diweddar Renee Ellis Jones, Fronheulog, Sling, Tregarth. Mae Catrin wedi crwydro'r byd gyda'i gwaith ac ar hyn o bryd yn gweithio i gwmni o'r enw Vattenfall fel Cynghorydd Cyfathrebu. Mae'r rhaglen ddiddorol ar gael o hyd os dymunwch wrando ar Catrin yn dweud ei hanes.

Anfonwn ein cofion fel ardal at dad Catrin, sef John Ellis Jones, gan obeithio ei fod mewn iechyd go dda.

**Profedigaeth**

Bu farw Helen Jones, 15 Rhes Elfed, Bethesda, yn 77 mlwydd oed ar 4 Mehefin. Cafodd Helen ei magu yn Craig y Pandy, a bu hefyd yn byw gyda'i theulu yn Erw Faen. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Rheinallt, ei phlant Brian a Gwenda a'r holl deulu. Bu ei hangladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar 14 Mehefin ac yn dilyn ym Mynwent Coetmor.

Ar 11 Mehefin yn Ysbyty Gwynedd, o 3 Bro Derfel, Tregarth, yn 88 oed, bu farw Gwynfor Thomas. Roedd yn ŵr i'r diweddar Mona ac yn dad i Carys, Alan, Bethan, Owena a Philip, yn daid a hen-daid hoffus ac yn frawd i Elizabeth a'r diweddar Ifor, Alwyn, Arfon ac Emlyn. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 23 Mehefin a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

**Capel Shiloh, Tregarth**

Dyma'r oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch ar y Suliau ym mis Gorffennaf. Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst ond yn ail-agor ar y Sul cynta' ym mis Medi. Croeso cynnes i bawb droi mewn i'r oedfa.

| | |
|---|---|
| 17 Gorffennaf | Ffion Rowlinson |
| 24 Gorffennaf | Richard Gillion |
| 31 Gorffennaf | Philip Barnett |

| | |
|---|---|
| 4 Medi | Gwyndaf Jones, Bangor |
| 11 Medi | Huw Pritchard, Llangefni |
| 18 Medi | Philip Barnett, Swydd Efrog |
| 25 Medi | Dewi Morris, Porthmadog |
| 2 Hydref | Trefniant Lleol |
| 9 Hydref | Philip Barnett |
| 16 Hydref | Sul y Diolchgarwch – Dr Jennie Hurd |
| 23 Hydref | Geraint Roberts, Llandegfan |
| 30 Hydref | Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |

**Drws Agored**

Cofiwch fod yna ddrws agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10 o'r gloch tan hanner dydd a chroeso cynnes am baned, cwmni a sgwrs. Beth am ymuno gyda'r cwmni? Mae criw da yn cyfarfod yn wythnosol.

Ar fore Mawrth, 19 Gorffennaf bydd cyfarfod i ffarwelio gyda'r gweinidog, y Parchedig Richard Gillion fydd yn symud gyda'i briod i weithio gyda ieuenctid ac yn weinidog yn ardal Porthcawl.

Mae Richard wedi bod yn weinidog yn ardal Gwynedd a Môn am y bum mlynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda iddo yn ei ofalaeth newydd gan ddiolch am ei waith yma yn ardal Arfon.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau cynnes i'n Trysorydd yma yn Shiloh sef Eirwen a'i phriod sydd yn organydd yn Shiloh, sef Wynn, ar ddathlu 65 o flynyddoedd o briodas ar 20 Gorffennaf. Mae gwaith y ddau ohonynt yn Shiloh yn ddifesur a diolchwn iddynt am eu cefnogaeth a'u cwmni yn ein plith fel aelodau. Diolch o galon Eirwen a Wynn.

Mae Merch Eirwen a Wynn hefyd wedi dathlu pen-blwydd priodas o 25 mlynedd ym Mis Mehefin. Llongyfarchiadau i chithau Nia a Kevin, Tyddyn Dicwm Bach.

# Adnabod llwyddiant y Dyffryn Gwyrdd

Mewn cyfnod o heriau cynyddol i gymunedau'r ardal mae'r Dyffryn Gwyrdd yn falch iawn o allu cyhoeddi adroddiad sy'n cydnabod cyfraniad y prosiect i fywyd yr ardal.

Comisiynwyd yr arbenigwr, Cynan Jones i gynnal asesiad Gwaddol Cymdeithasol yn Sgil Buddsoddiad ar brosiect y Dyffryn Gwyrdd, un o brosiectau Partneriaeth Ogwen a gyllidwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r Dyffryn Gwyrdd, sy'n rhedeg ers Awst 2020 yn cyflogi tîm o staff i ddarparu adnoddau a chyfleodd cymunedol megis ceir a beics trydan, cynlluniau bwyd a thyfu, a gwasanaethau Pantri Pesda a'r Cyfaill Cymunedol.

Prif ddarganfyddiad yr ymchwil yw bod gwerth ychwanegol yn cael ei greu i ddefnyddwyr gwasanaethau'r Dyffryn Gwyrdd o'i gymharu â'r hyn a fuddsoddwyd yn y gwasanaethau.

"Mae'r ymchwil yn cadarnhau'r hyn roeddem ni'n deimlo sef bod buddsoddiad o arian mewn menter gymunedol yn dwyn ffrwyth sylweddol," meddai Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen

"Gan fod y Dyffryn Gwyrdd wedi'i wreiddio yng nghymuned Dyffryn Ogwen mae'n gallu ymateb i'r anghenion sy'n codi ar hyd a lled y Dyffryn a hynny'n chwim ac effeithiol tu hwnt.

"Mae'r ffaith fod gennym 81 o unigolion yn gwirfoddoli i'n cynorthwyo gyda'n gwaith yn drawiadol iawn ac yn dystiolaeth fod cymuned y Dyffryn yn cefnogi'n gwaith. Rydym nawr yn paratoi ar gyfer y misoedd a'r blynyddoedd nesaf yn llawn hyder y gallwn fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'n cymuned ac achub ar gyfleoedd i wella'n ardal."

Ychwanegodd Huw Davies, Rheolwr y Dyffryn Gwyrdd: ""Gyda'r Dyffryn yn dod allan o gyfnod anodd y pandemig mae'n galondid gallu adrodd ar lwyddiant o'r fath.

"Rydan ni'n ddiolchgar iawn i Gronfa Gymunedol y Loteri am eu cymorth hael, i'r staff a'r gwirfoddolwyr sydd wedi creu'r bwrlwm hyn – bob dim o hel sbwriel i rannu bwyd, i blannu coed a chymryd rhan mewn digwyddiadau beics."



**Mae'r cynllun Cyfaill Cymunedol yn rhan amlwg o waith Dyffryn Gwyrdd**

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Braf iawn oedd cael ail-ymgynnull yng nghyfarfodydd y gangen yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, 6 Mehefin. Rhoddodd y llywydd, Myfanwy Harper, groeso i'r aelodau ac anfonodd ddymuniadau da i bawb oedd yn methu bod yn bresennol .

Y gŵr gwadd oedd Ben Stammers sydd yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac yn byw yn lleol yn Nyffryn Ogwen. Mae Ben yn arbenigwr yn ei faes a chawsom noson hyfryd yn ei gwmni yn siarad am y Wenoliaid Du (Swift) sydd yn adar sydd yn prinhau yn gyflym yn ein gwlad. Pwysleisiodd fod y rhain yn wahanol i'r gwenoliaid cyffredin fyddwn ni yn ei weld o'n cwmpas wedi iddynt hedfan yn ôl ar gychwyn y gwanwyn. Mae rhain yn dywyll eu lliw, yn fwy, ac yn hedfan yn uchel iawn yn yr awyr.

Cawsom gyfle i fynd allan i un man yn y pentre' lle rodd Ben yn gwybod fod y wennol ddu i'w gweld ar rai achlysuron a buom yn lwcus fod Ben yn medru dangos un ohonynt yn hedfan yn uchel iawn, ond dim ond cip sydyn gafodd rhai o'r aelodau! Diolchwyd i Ben am noson ddiddorol iawn a chyfle i ddysgu am aderyn eitha' prin sydd o'n cwmpas yma yn Nyffryn Ogwen. Diolchwyd iddo am ei waith ym myd natur a chanmolwyd ef am ei iaith ragorol yn disgrifio'r aderyn arbennig yma.

Roedd y gangen yn cwblhau'r tymor gyda Swper yng Nghlwb Rygbi Bethesda, Nos Lun, 4 Gorffennaf.

Dymunwn ddiolch o galon i'r swyddogion sydd wedi edrych ar ôl y gangen am y dair mlynedd ddiwethaf gan ofalu cadw cyswllt er nad oedd yn bosibl inni ddod at ei gilydd tan eleni. Diolch o waelod calon i Myfanwy Harper, Alison Carden a Iona Rhys.

Bydd y tymor newydd yn cychwyn Nos Lun, 5 Medi am 7.30 yn Festri Capel Shiloh. Croeso mawr i aelodau newydd a chyn aelodau. Ni chewch eich siomi. Mae nosweithiau difyr wedi'i trefnu a digon o hwyl a sbri a chyfle i gymdeithasu ymhlith ffrindiau yn ogystal â mynd ar dripiau ac i fwynhau swper gyda'n gilydd.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at Mrs Linor Holland Perthi Corniog sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**O Seland Newydd**

Braf oedd gweld Paul Francis, mab Wyn Roberts, Braich Talog, ar ymweliad a'i hen gynefin o'i gartref yn Seland Newydd. Da hefyd oedd gweld Wyn allan yn ei gwmni.

**Eglwys y Santes Fair**

Gwasanaethau ar 17 a 31 Gorffennaf, 7 a 21 Awst. Dechrau am 9.30yb.

Braf iawn oedd cael croesawu ein ficer newydd ni, sef y Parch Dr Gareth Lloyd a'i wraig Elizabeth atom ar 19 Mehefin. Mae hyn yn gyfnod newydd i ni yn Gelli ac ym Mro Ogwen.

Mae ein Te Bach nesaf ar ddydd Mawrth, 19 Gorffennaf am 1yp. Dewch draw am banad a chacen!

Llongyfarchiadau i John a Cara ar eu priodas diweddar.

Trist iawn oedd y newyddion bod y Parch Martyn Lewis wedi marw wedi cystudd blin. Roedd yn un o gynulleidfa'r Gelli ers dros 12 mlynedd ac mi aeth yn ei flaen yn yr eglwys a chael ei ordeinio yn 2020. Mi fydd colled mawr ar ei ôl. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Pedr, Pwllheli o dan arweiniad y Parch Rhun ap Robert.

**Penblwydd Arbennig**

Penblwydd hapus iawn i Angharad Williams Ffordd Tanrhiw ar gyrraedd oed yr addewid ar 24 Gorffennaf. Gobeithio y bydd yn mwynhau'r dathlu.

**Profedigaeth**

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth un o aelodau Shiloh, sef y diweddar Helen Jones, Bethesda fu farw ar 4 Mehefin. Cydymdeimlwn gyda Rheinallt, Brian, Gwenda a'r teulu. Bu ei hangladd yma yn Shiloh ar 14 Mehefin.

## Cyngerdd Eglwys Glanogwen

**Côr y Penrhyn**
yn cyflwyno
**Marsh Ladies Choir (Huddersfield)**

**24 Medi 2022**
**am 7 o'r gloch**


**Tocynnau ar gael:-**
**Siop Ogwen**
**Aelodau Côr y Penrhyn**
**Aelodau Eglwys Glanogwen**
01248 600371 a 600530

(Elw: Apêl Tŵr Eglwys Glanogwen)

# Llên Gwerin Bangor a'r Cyffiniau

Pam na ddylech chi anelu bys at y lleuad? O ba brennau mae gwneud arch? Pwy oedd Meri Fflamingo a Robin Ddu? Pam aeth Lloyd George o dan y ddaear? Beth yw pren lladd? Pwy welodd y ci bwgan, a pham ddylech chi fwyta llygoden?

Mae'r ateb i fil a mwy o'r cwestiynau hyn o fewn llyfr sydd newydd ei gyhoeddi, sef "Llên Gwerin Bangor a'r Cyffiniau" gan Howard Huws. Dyma ffrwyth oes o wrando a chofnodi llên gwerin gyfoethog ardal Bangor a'r cyffiniau – gan gynnwys Dyffryn Ogwen – a gwybodaeth na chewch mohoni yn unlle arall: hen draddodiadau am ddewiniaid, ysbrydion ac arferion bywyd beunyddiol, ynghyd â llysenwau, ofergoelion, meddyginiaethau a llawer rhagor.




Nid rhywbeth sy'n perthyn i gefn gwlad ac i'r gorffennol yn unig yw llên gwerin: mae'n rhywbeth sy'n fyw ac yn esblygu. Eto, hawdd y gall fynd i'w cholli hefyd, oni bai bod rhywun yn ei chofnodi. Mae cynhysgaeth traddodiadau Cymru'n frithwaith hyfryd ac amryliw, a dyma ychwanegu darn arall at y darlun cyfan.

Mae'r awdur yn enedigol o Fangor, ac yn ddisgynnydd i deulu fu ym Mangor ers y 1850au o leiaf. Mae wedi ymddiddori mewn llên gwerin a hanes ers yn blentyn, ac mae'n awdur sawl cyfrol a llu o erthyglau. Mae Howard hefyd wedi bod yn cyfrannu at golofn 'Nyth Y Gân' yn y Llais o bryd i'w gilydd.

Am £10, mae'n fargen, ac ar gael yn eich siop lyfrau lleol, neu gan yr awdur ar cyfarchiad@yahoo.co.uk - mwynhewch y darllen!

## Iaith Pesda

Yn rhifyn Mai o Iaith Pesda efallai chi gofio mi gynnwyd rhigwm "Comi nero". Cysylltodd Elinor Elis-Williams efo fi gan ddweud ei bod hithau yn gyfarwydd efo'r rhigwm, neu eiriau "tamaid yn wahanol, ond yn sicr yr un gân". Byddai ei thad yn arfer ei chanu iddynt fel plant er mwyn eu difyrru a'u tawelu. Ganwyd ei thad ym Mangor yn 1918 a byddai'n dweud iddo ddysgu'r geiriau yn yr Ysgol Sul gan genhadwr neu genhadon o Affrica ac mai emynau mewn iaith frodorol oeddynt. Cynhwysais esboniad Meredydd Evans yn rhifyn Mai. Diolch i Elinor am ei chyfraniad.

**Ymweld a chyfarfod**
Mae yna nifer o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwn mewn perthynas o ymweld â thai ein gilydd. Cyn bod radio a theledu, byddai pobl yn ymweld â chymdogion a chyfeillion a pherthnasau yn llawer iawn amlach nag a wneir heddiw. Dyma rai geiriau a dywediadau:

**tro/troi**
"Mi rois i dro ym Mangor bnawn ddoe" (treulio ychydig amser yno): "Dwi am roi tro am Gaernarfon heddiw" (mynd yno): "Mi fydd rhaid imi ei throi hi rŵan, mae'n mynd yn hwyr" (ymadael)

"Cofia daro i mewn am banad".

**hebrwng/danfon**
Pan fyddai cymydog neu gymdoges wedi bod yn ymweld ag aelwyd efallai y byddai'r rhieni yn dweud wrth y mab neu'r ferch am gyd-gerdded yn gwmni i'r ymwelydd tan ei fod wedi cyrraedd adref - "Dos i hebrwng anti Gwen" neu "Dos i ddanfon Anti Gwen".

Oes rhywun wedi clywed **danfon** am ymweld â theulu wedi iddynt gael profedigaeth ac yn aml ers talwm mynd ag ychydig o arian tuag at gost y claddu?

**cwfwr**
Gair arall am gyfarfod "Mae Huw ar ei ffordd yma, dos i'w gwfwr" neu "Dwi'n cwfwr â Mair am saith".

### Ambell i air

**ciando**
"Mae'n hwyr well i ti fynd am y ciando 'na" sef gwely, hefyd "y lle sgwâr 'na".

**fflîch**
Taflu rhywbeth, yn enwedig rhywbeth hen neu diangen "Mae'n amser i'r hen sgidia na gael fflîch".

**pledu**
Taflu cerrig at rywbeth (neu rywun!).

**Ffeirio comics**
Roedd yn arfer gennym ni fel plant fynd o gwmpas tai y stad i ffeirio comics. Efallai ein bod yn derbyn comics gwahanol, wedyn ar ôl ychydig wythnosau byddem yn mynd i dai ein gilydd efo'r pentwr gan gnocio ar y drws a gofyn "Ydy Wil isio ffeirio comics?"



**mul**
Nid yr un pedair coes ond yr un a gadwyd yn y cwt neu yn y sied er mwyn trwsio esgidiau cyn iddynt fod yn rhy ddrwg i fynd at y crydd.

**Geirfa yn ymwneud â'r chwarel**
Gan ddechrau y mis yma fel tamaid i aros pryd tan fis Medi rwyf am drafod yn fyr ychydig o eiriau yn gysylltiedig gyda'r chwarel.

**agor**
Rhan o'r bonc a weithir gyntaf er mwyn cael wyneb bargen

**bagal**
Man lle rhoddid y clytiau (sef darnau o lechi) ar eu pennau ar ôl eu llifio yn barod i gael eu hollti. Man lle byddai'r holltwr a'r nadwr yn gweithio. Roedd ei siâp fel bagl ffon.

**bargen** neu **bargan**
Roedd rhan o dâl y chwarelwr yn dibynnu ar y nifer o lechi a gynhyrchid gan y criw, ond gallai hyn amrywio'n fawr yn ôl natur y graig a osodwyd sef "bargen" a fyddai'n cael ei osod gan y "stiward gosod." Byddaf yn sôn eto am 'stiwart' a 'setlo' a 'setlo mawr'.

Ceir gwahanol fathau o fargeinion: bargen flêr, bargen ddi-wyneb, bargen lân, bargen rywiog, bargen sâl a llawer mwy.

**blocyn tin / blocyn hollti**
Stôl fechan isel o bren lle'r eistedda'r chwarelwr pan yn hollti.

Diolch i bawb ohonoch am eich cyfraniadau, byddaf yn parhau gyda'r golofn mis Medi.

Cysylltwch efo: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN / maryesd@hotmail.co.uk/ 07443047642

# Natur o'n Cwmpas

# Brwynddail y Mynydd – planhigyn enwocaf ein hardal



Yng Nghwm Idwal ac ar yr Ysgolion Duon mae nifer o blanhigion sy'n eithriadol o brin, sef blodau arctig-alpaidd. Maen nhw mor brin ac arbennig fel bod eu hunion leoliad yn gyfrinach, efo'r wybodaeth yn cael ei rhannu ymhlith naturiaethwyr yn unig. Fodd bynnag, mae'n hysbys mai yn y Twll Du a'r ddau gwm crog, Cwm Cneifion a Chwm Clud, y mae'r planhigion anghyffredin hyn yn tyfu yng Nghwm Idwal.

Mae cofnodion astudiaethau mesur paill mewn mawn yn dangos bod y planhigion arctig-alpaidd hyn wedi bod yma o'r cyfnod wedi diwedd Oes yr Iâ tua deng mil o flynyddoedd yn ôl, ac mae rhesymau pam eu bod wedi llwyddo i barhau yno. Mae Cwm Idwal a'r Ysgolion Duon yn gymharol oer gan eu bod yn wynebu'r gogledd, ac mae'r dirwedd, a natur y graig a'r pridd, yn cynnal cynefin addas i'r planhigion hyn. Efo'u gwreiddiau gwydn, maen nhw'n cydio'n dynn wrth silffoedd culion iawn ac ochrau mân agennau mewn hafnau sy'n brin eithriadol o bridd. Dyma lefydd anhygyrch na fedr defaid a hyd yn oed y geifr gyrraedd i bori.

Ymhlith y planhigion hyn mae'r tormaen cyferbynddail (tormaen porffor), gwallt y forwyn gwyrdd, arianllys y mynydd, gludlys, suran y mynydd, a'r enwocaf ohonyn nhw i gyd, brwynddail y mynydd.

Ia, brwynddail y mynydd. Enw arall arno ydi lili'r Wyddfa, ac mae'n blodeuo ddechrau Mehefin (a diwedd Mai ar dro). Mae hi'n eithriadol o anodd ei ganfod ar adeg arall gan fod y dail mor fain a disylw. Mae'r enw brwynddail y mynydd yn enw addas. Meddai Evan Roberts, y botanegydd o'r radd flaenaf o Gapel Curig a fu'n Warden Gwarchodfa Natur Cwm Idwal, "Mae o'n egluro y planhigyn i'r dim ichi. Dyna werth gair, dwi'n meddwl. Gwerth enw y blodyn ydi bod o'n egluro pa fath o flodyn ydi o. Wel, mae o run fath â brwyn. Mae o fel ryw ddail bach, fel peth fyddan ni'n ei alw'n sibols ifanc – brwyn yn hollol."

Dyma flodyn mwyaf prin gwledydd Prydain, a dim ond mewn pum llecyn yn Eryri y mae o'n tyfu. Yn ogystal â Chwm Idwal a'r Ysgolion Duon, mae o i'w gael ar yr Wyddfa. I'w ganfod y tu hwnt i Eryri, byddai'n rhaid mynd i'r Alpau, y Rockies, Mynyddoedd Carpathia, Mynyddoedd Himalaia, y Mynyddoedd Cawcasaidd a Rwsia arctig.

Canfuwyd a chofnodwyd brwynddail y mynydd gyntaf gan Gymro, Edward Llwyd (1660-1709), a dyma pam mai'r enw gwyddonol gwreiddiol arno ydi Lloydia serotina. Roedd Edward Llwyd yn ŵr galluog iawn, yn naturiaethwr, botanegydd, daearyddwr, ieithydd a hynafieithydd, ac yn un o'r rhai cyntaf i arbenigo mewn ffosiliau. Mae Cymdeithas Edward Llwyd wedi ei henwi ar ei ôl. Cafodd ei sefydlu yn 1978 ac mae hi'n gymdeithas Gymraeg weithgar a mawr ei chyfraniad yn lledaenu gwybodaeth am fyd natur, gan drefnu darlithoedd a theithiau yn ogystal â chyhoeddi cylchgrawn.

* * *

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

## PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Yng nghanol mis Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod rhithiol pob aelod o Etholaeth Arfon (gyda nifer o bobl Dyffryn Ogwen yn bresennol), yn bennaf i fynegi agwedd yr aelodau am gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ethol aelodau Senedd Cymru yn y dyfodol.

Byddai'r drefn newydd yn dileu'r aelodau rhanbarthol, yn sicrhau cyfle cyfartal i ferched, yn cynyddu cynrychiolaeth gyfrannol, yn galluogi digon o graffu ar waith Llywodraeth Cymru ac yn cynnig nifer o aelodau Senedd Cymru sy'n debycach (yn gyfrannol) i'r nifer sydd yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bu drafodaeth gall, gyda nifer o bwyntiau o blaid ac yn erbyn; ac yn y diwedd, penderfynwyd gadael y dewis i'r anfonogion a fydd yn mynd i gynhadledd arbennig Plaid Lafur Cymru ar ddechrau mis Gorffennaf.

Clywid bod nifer o aelodau'n barod i sefyll yn etholiad nesaf Cyngor Gwynedd ac y bydd cyfarfod blynyddol Plaid Lafur Etholaeth Arfon ar yr ail nos Fercher ym mis Gorffennaf, ond y bydd y Cynghorydd Godfrey Northam yn sefyll i lawr fel cadeirydd oherwydd cyflwr ei iechyd.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn ag Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd. Bu farw ei gefnder a adnabuwyd fel Eurwyn Llan. Fe'i magwyd yn Llanddeiniolen ac yna symudodd i Sir Fôn. Cofion atoch fel teulu.

**Eisteddfod yr Urdd**
Mwynheais yr arlwy a gawsom gan S4C. Daeth atgofion melys i'r cof, dawnsio gwerin a chân actol gyda Miss Dilys Jones yn Ysgol Rhiwlas a chystadlu gyda'r côr yn Ysgol Dyffryn Ogwen gyda Ken Evans, yr athro cerdd yn arwain a Ieuan Llywelyn yn cyfeilio. Amser Difyr.

**Dymuno'n dda**
Llongyfarchiadau i Mrs Myra Jones, Bron y Waun ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganed bachgen bach Tomi Taran i'w hŵyr Sion a'i gymar. Llongyfarchiadau hefyd Nain a Taid Wrecsam Linda a John, pawb wedi dotio dwi'n siŵr. Mae Myra hefyd mewn tipyn o boen yn ei chefn. Brysiwch wella.

**Gŵyl y Gelli**
Roedd Manon Steffan Ros yn rhan o ŵyl y Gelli eleni ac yn trafod ei llyfrau. Gŵyl lenyddol fawr sydd yno ac fe'i cynhelir yn y Gelli Gandryll yn flynyddol. Cafodd yr ŵyl ei sefydlu yn 1988 ac mae'n denu tua 60 mil o bobl yno. Yn sicr mae'n fraint i fod yn rhan o'r ŵyl ac eleni roedd Manon mewn cwmni da, roedd Hillary Clinton yno hefyd.

**Dymuniadau gorau**
Cofion at bawb sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, treuliodd Gwyn Williams, Cefn Coch amser yn Ysbyty Gwynedd. Fe gafodd Mrs Mair Roberts a Melfyn Jones driniaeth i'w llygaid a newydd glywed fod Eunice Jones, Caeau Gleision yn yr Ysbyty. Dymunwn yn dda i chi ac i bawb sydd heb fod yn dda.

**Y Neuadd**
Yn ystod Mis Gorffennaf fe fydd y Neuadd yn cael cegin newydd ac edrychwn ymlaen at weld y newidiadau.

# Pont Yr Inn

Yn ei erthygl Pwy sy'n Cofio Ddoe? mae Dr J. Elwyn Hughes yn sôn am lif mawr yn yr Afon Ogwen, a olchodd Pont yr Inn i ffwrdd. Nid oedd JEH yn hollol saff pryd y digwyddodd hyn, ond wrth chwilota am rywbeth hollol amherthnasol dois ar draws yr adroddiad yma a allai roi ychydig o oleuni ar y digwyddiad yma.

Yn y Cambrian News and Merionethshire Standard, Hydref 9, 1874, darllenais y canlynol. 'Storm in Caernarvonshire'. Mae'r adroddiad yn y Saesneg ac rwyf wedi cyfieithu'r adroddiad orau gallaf.

"Bu storom o wynt a glaw trwm yn Sir Gaernarfon ddydd Mawrth, Hydref y 6ed, a achosodd gryn ddifrod i eiddo sawl un. Oherwydd hyn gorlifodd Afon Ogwen, sydd yn llifo trwy Fethesda, ei glannau. Fe orchuddiwyd llawer o'r tir gan rai troedfeddi, a gorchuddiwyd y llwyni. Y tu ôl i Ogwen Terrace, Bethesda, ysgubwyd llathenni o'r wal i ffwrdd a golchwyd nifer o goed i lawr yr afon yn ystod nos Fawrth. Yn ogystal â hyn golchwyd pont bren sylweddol oedd yn croesi'r afon ger y gwaith nwy. Mor aruthrol oedd y llif nes bod carreg anferth, tua thair tunnell, wedi ei sgubo i lawr yr afon a dod i orffwys ger bont y rheilffordd."

Rwyf yn cymryd mai'r bont ger Talybont y mae'r adroddiad yn sôn am dani, oherwydd na chafodd y rheilffordd i Fethesda ei adeiladu tan tua 1884. Tybed fod Pont yr Inn wedi cael ei golchi i ffwrdd yn yr un storm, ond nad oedd gohebydd y papur wedi cael gwybod am y bont yma?
**gan Andre Lomozik**



# Marchnad Ogwen

Ar hyn o bryd, rydym yn dal i groesi bysedd a gobeithio y bydd y gwaith yn Neuadd Ogwen wedi ei gwblhau mewn da bryd i ni allu ail gychwyn Marchnad Ogwen ym mis Medi. Byw mewn gobaith!

Mi fyddwn yn hapus iawn i groesawu stondin newydd yn y Farchnad – sy'n mynd i fod yn hwb sylweddol i'r gymuned. Bydd 'Llyfrgell y Petha' yn cynnal stondin yn y Farchnad o hyn ymlaen. Fel y gwelwyd yn Llais Ogwan mis Mehefin, "mae Llyfrgell Petha yn debyg i wasanaethau llyfrgelloedd traddodiadol ond yn hytrach na menthyg llyfrau gellir menthyg pethau" Diddorol iawn ynte.

Hefyd, o bryd i'w gilydd byddwn yn cynnal stondin dillad ysgol ail-law mewn cyflwr da. Catrin Wager sydd yn gyfrifol am y stondinau a gellir cael mwy o fanylion ganddi hi. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu i Farchnad Ogwen.

Felly, hei lwc y gwelwn ni ein Marchnad yn ail-gychwyn ym mis Medi!

Mae manylion cynnal stondin ar gael trwy gysylltu â'r ysgrifennydd trwy e-bost, ysgrifennydd@marchadogwen.co.uk (Bydd angen gwerthu nwyddau / bwydydd sy'n wahanol i'r hyn sydd eisoes yn y Farchnad).

Mae manylion ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk** ac ar Facebook ac Instagram.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Cyfle i Wirfoddoli

**Ydych chi'n gallu gwrando ar bobl eraill?**

- Gweledigaeth y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad, ond rydyn ni'n cynnig cymorth emosiynol i bawb.
- Rydyn ni'n chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg, i ymuno â'n cangen ym Mharc Menai, Bangor.
- Bydd ein hyfforddiant cyfrwng Cymraeg nesaf yn dechrau ar 17 Medi 2022.

Am ragor o wybodaeth: Ffoniwch 01248 674984 neu e-bostiwch recriwtio@samariaidbangor.org

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# CHWILAIR



## NYTH Y GÂN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Y | F | R | I | A | L | L | E | N | A | A | W | N | F | H | R | I | E | J |
| L | D | C | M | B | V | B | H | X | J | C | U | I | A | S | V | S | H | E | I |
| M | G | E | V | H | M | D | W | H | R | U | Z | M | I | X | V | A | D | D | N |
| A | P | A | R | U | Q | U | S | E | O | A | F | R | D | P | Y | Q | Z | U | T |
| H | C | U | M | Y | W | N | U | O | F | G | Y | R | Y | I | A | S | Z | U | T |
| F | D | X | U | P | N | E | W | O | R | W | H | C | B | Q | H | D | W | E | H |
| O | Y | E | E | G | N | Y | N | E | O | A | M | H | R | E | P | D | T | T | C |
| B | L | B | C | G | U | O | G | U | J | N | P | L | I | T | M | E | I | V | V |
| D | D | C | L | B | G | B | F | W | R | W | F | O | T | G | J | O | V | I | I |
| R | E | Y | R | W | X | I | M | H | A | Y | T | T | H | O | S | N | K | O | P |
| W | N | R | E | C | M | K | C | B | O | N | R | C | Y | X | V | I | R | Y | H |
| S | E | N | T | M | R | E | F | Y | J | D | W | Z | L | H | B | F | C | W | O |
| S | C | C | R | A | I | X | N | I | L | X | J | Y | L | J | M | E | B | W | T |
| E | F | X | M | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | N | O | I | N | L | F | E |
| R | O | Z | Q | R | O | C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | Y | E | A | J |
| K | C | S | W | U | H | D | R | A | W | O | H | B | E | T | A | C | J | C | L |
| N | B | R | I | A | L | L | U | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O |
| W | T | R | A | D | D | O | D | I | A | D | J | J | Q | U | L | F | S | V | T |
| X | E | U | G | H | S | G | O | G | Y | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z |
| H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG PENNILL sydd wedi ymddangos yn Nyth y Gân tros y blynyddoedd i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 2 Awst. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion chwilair Mehefin:** Carol Gŵr y Llety; Clychau'r Gog; Gloria; Llanfair; Nant y Mynydd; O! Na byddai'n haf o hyd; Pan ddaw yfory; Rownd yr Horn; Tuag Adref; Tyddyn Llwyn; Y Bryniau Melynion; Y Delyn Aur.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Dilys Wyn Griffith, Abergele; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwen Davies, Bethesda; M. A. Jones, Rachub; Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Eirwen Owen, Erw Las; Nia Wyn Bagnall, Llandegai.

**Enillydd Mehefin oedd:** Dilys Wyn Griffith, Sŵn yr Afon, 3 Tower Way, Abergele, Conwy. LL22 7AY.

# Ail Gap Cenedlaethol i Stephen – cynrychioli ei wlad yn Iwerddon

Mae hi'n gryn fraint cael eich dewis i gynrychioli eich gwlad mewn unrhyw gamp. Dyma fu profiad Stephen Roberts o'r Carneddi eleni drwy gystadlu fel aelod o Dîm Pysgota Cenedlaethol Cymru yn y Bencampwriaeth Bysgota Ryngwladol ac ennill ei ail gap.

Fel sawl genweiriwr arall, dechrau'n gynnar yn y grefft a wnaeth Stephen. Cafodd fynd i 'sgota Afon Ffrydlas ac Afon Gaseg pan oedd yn 6 oed cyn cael 'dyrchafiad' a chael mynd yng nghwmni ei daid, Gwilym 'Llain', i bysgota'r llynnoedd. Roedd Gwilym 'Llain' yn bysgotwr o fri, a byddai'n ddigon brwdfrydig i gerdded ben bore dros Garnedd Llywelyn i bysgota llynnoedd diarffordd Dulyn a Melynllyn.

Mae Stephen yn cofio'n fyw iawn y dyddiau difyr hynny a dreuliwyd ar lannau Llyn Idwal, Llyn Bochlwyd a Llyn Anafon yng nghwmni ei daid a rhai o hen bysgotwyr Dyffryn Ogwen. Profiadau pleserus a oedd "yn wersi natur a hanes" medda fo, wrth iddo wrando ar straeon yr hen griw, y chwerthin a'r tynnu coes dros ginio – a mwynhau cacen gan ei nain.

Tua deng mlynedd yn ôl dechreuodd Stephen gymryd rhan mewn cystadlaethau pysgota pluen, a dyma roi cynnig yn nhreialon Cymru i weld a fedrai gael ei dderbyn i'r tîm cenedlaethol. Bu'n llwyddiannus, gan ennill ei gap cyntaf yn 2015, a chynrychioli ei wlad ar Rutland Water yn Lloegr yn y Bencampwriaeth Ryngwladol flynyddol.

Yn dilyn ei berfformiadau cyson, cafodd wybod y byddai'n aelod o'r tîm cenedlaethol eto yn 2019. Iwerddon oedd i fod i groesawu'r gystadleuaeth ryngwladol yn 2020, a'r lleoliad oedd Lough Melvin ar y terfyn rhwng Swydd Fermanagh a Swydd Leitrim. Fodd bynnag, fel y gwyddom, daeth y pandemig a gohiriwyd yr achlysur. Felly, ar ôl aros am ddwy flynedd, dyma groesi Môr Iwerddon ar y 5ed o Fehefin eleni a theithio i Bundoran.



Stephen Roberts




Tîm Pysgota Cenedlaethol Cymru.

Pysgota pluen am frithyll gwyllt oedd y gystadleuaeth, a chafwyd cyfle i ymarfer a chynefino â'r llyn a'r amgylchiadau am bedwar diwrnod cyn y gystadleuaeth. Pan ddaeth aelodau tîm Cymru at lan y llyn (a ddisgrifiwyd gan y Gwyddelod fel 'un o'n llynnoedd lleiaf ni') yr hyn a welwyd oedd "môr o ddŵr o'n blaenau" chwedl Stephen, gan fod y llyn wyth milltir o hyd a dwy filltir ar draws. Fodd bynnag, treuliwyd y pedwar diwrnod cyn y gystadleuaeth yn mynd yn y cychod i bob cornel o'r llyn a hynny mewn gwynt a glaw. Fel y dywed Stephen, "Mi fuasai fferi Stena wedi bod yn handi!"



Yn y cwch yng nghwmni'r ghillie.

Pan ddaeth dydd Gwener y gystadleuaeth, gwaethygodd y sefyllfa. Daeth storm drofannol o America, ac yn ôl Stephen dim ond aelodau tîm Iwerddon oedd â gwên ar eu hwynebau amser brecwast! Roedd y Gwyddelod wedi hen arfer efo stormydd mawr o gyfeiriad Môr Iwerydd yn taro eu gwlad. Gobeithio y byddai'r storm yn mynd heibio'n o sydyn yr oedd pawb arall.

Ar ôl wyth awr o bysgota, â Lough Melvin yn edrych fel Môr Iwerydd, daeth cychod y timau i gyd i'r lan wrth bentref Garrison er mwyn i'r swyddogion bwyso'r pysgod a chyhoeddi'r canlyniadau. Y Gwyddelod ddaeth i'r brig, efo'r Alban yn ail, Cymru'n drydydd, a Lloegr yn cael y llwy bren.

Mae llwyddiant Stephen wedi dod â chryn glod i'r ardal, a dymunwn yn dda iddo yn y dyfodol gan obeithio y daw'r trydedd cap yn fuan.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672 076

70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

ECA